



Department  
for Transport



# Dogfen Briffio Rhanddeiliaid Partneriaeth Arfordir y Gorllewin

Y Daith i Reilffyrdd Cyflym lawn

Mawrth 2018





Department  
for Transport

# Dogfen Briffio Rhanddeiliaid Partneriaeth Arfordir y Gorllewin

Y Daith i Reilffyrdd Cyflym lawn

Mawrth 2018

Mae'r Adran Drafnidiaeth wedi ystyried o ddifri anghenion pobl ddall a rhannol ddall wrth gyrchu'r ddogfen hon. Bydd y testun ar gael yn llawn ar wefan yr Adran. Gellir lawrlwytho'r testun am ddim a gall unigolion neu sefydliadau ei gyfieithu i'w drosi'n fformatau hygyrch eraill. Os oes gennych anghenion eraill yn hyn o beth cysylltwch â'r Adran os gwelwch yn dda.

Yr Adran Drafnidiaeth  
Great Minster House  
33 Horseferry Road  
Llundain SW1P 4DR  
Ffôn 0300 330 3000  
Gwefan: [www.gov.uk/dft](http://www.gov.uk/dft)

Ymholiadau cyffredinol: <https://forms.dft.gov.uk>

**OGL**

© Hawlfraint y Goron 2018

Mae hawlfraint yn y trefniad teipograffyddol yn sefyll gyda'r Goron.

Gallwch aildefnyddio'r wybodaeth hon (heb gynnwys logos na deunydd trydydd parti) yn rhad ac am ddim mewn unrhyw fformat neu gyfrwng, dan delerau'r Drwydded Llywodraeth Agored.

I weld y drwydded hon, ewch i:

<http://www.nationalarchives.gov.uk/doc/open-government-licence/version/3/> neu ysgrifennwch at Information Policy Team, The National Archives, Kew, Llundain TW9 4DU, neu anfonwch e-bost at: [psi@nationalarchives.gsi.gov.uk](mailto:psi@nationalarchives.gsi.gov.uk).

Lle rydym wedi nodi unrhyw wybodaeth hawlfraint trydydd parti, bydd angen i chi gael caniatâd gan ddeiliaid yr hawlfraint dan sylw.



# Cynnwys

<b>1 Rhagair</b>	<b>2</b>
Rhagair gan yr Ysgrifennydd Trafnidiaeth	3
<b>2 Cyflwyniad</b>	<b>5</b>
Ar gyfer beth mae'r ddogfen hon?	6
<b>3 Cefndir</b>	<b>7</b>
Y gwasanaeth ICWC presennol a HS2	8
<b>4 Ein Gweledigaeth</b>	<b>10</b>
Gweledigaeth ac amcanion y WCP	11
<b>5 Crynodeb</b>	<b>17</b>
Manteision i deithwyr	18
Manteision rheilffordd gynaliadwy	19
Crynodeb Manyldeb y WCP	20
<b>6 Ymatebion i'r Ymgynghoriad</b>	<b>23</b>
Ymatebion i'r ymgynghoriad	24
<b>7 Atodiadau</b>	<b>53</b>
Ffigurau a thablau	54
Rhestr o ymatebwyr rhanddeiliaid	55



1

Rhagair



# 1 Rhagair gan yr Ysgrifennydd Trafnidiaeth

## Y Gwir Anrhydeddus Chris Grayling AS

Ysgrifennydd Gwladol dros Drafnidiaeth



### Cyflwyniad

Mae'n gyfnod cyffrous i fod yn rhan o ddiwydiant rheilffyrdd y Deyrnas Unedig, ffaith sydd i'w gweld yn amlwg yn ein cynlluniau i greu Partneriaeth Arfordir y Gorllewin newydd.

Mae lefelau uwch nag erioed o fuddsoddiad a chyllid o'r sector preifat yn ariannu adfywiad yn ein rheilffyrdd sydd heb ei ail yn Ewrop. O ganlyniad, rydym wedi gweld y gystadleuaeth i weithredu Partneriaeth Arfordir y Gorllewin yn denu cwmnïau o safon byd, pob un ohonynt yn benderfynol i fod ar y blaen yn y cyfnod nesaf o deithiau rheilffyrdd rhwng dinasoedd, ac i baratoi ar gyfer y genhedlaeth nesaf o wasanaethau cyflym iawn ar HS2.

Mis Tachwedd diwethaf, fe sefydlais yr amodau a fydd yn sicrhau'r cyfnod newydd hwn ar gyfer teithiau rheilffyrdd yn y Deyrnas yn fy ngweledigaeth strategol ar gyfer rheilffyrdd y Deyrnas Unedig – 'Cysylltu pobl: gweledigaeth strategol ar gyfer y rheilffyrdd'.

Ar draws y wlad, rydym nawr yn datrys y rhaniad gweithredol rhwng a traciau a'r trenau fel bod y ddau sefydliad yn rhannu un gorchymyn: blaenoriaethu'r teithiwr.

Rydym yn creu partneriaethau cyhoeddus-preifat newydd arloesol ar gyfer cyflawni gwasanaethau a seilwaith rheilffyrdd allweddol.

Rydym yn archwilio cynlluniau newydd i agor llinellau newydd a chysylltu cymunedau ac ardaloedd busnes nad oedd wedi eu gwasanaethu'n ddigonol yn flaenorol.

Ac rydym yn buddsoddi mewn technoleg ddigidol newydd, yn cyflwyno opsiynau tocynnau clyfar gyda'r dechnoleg ddiweddaraf, cyswllt Wi-Fi cyflymach ac yn gwella unioniad ar gyfer teithwyr pan fydd pethau'n mynd o chwith.

Mae hyn oll yn trawsnewid y profiad o deithio ar gyfer teithwyr yn y Deyrnas Unedig, ac yn rhoi'r ansawdd a gwerth iddynt maent yn ei ddisgwyl gan reilffordd sy'n addas ar gyfer 21ain Ganrif.

### Partneriaeth Arfordir y Gorllewin

Wrth i ni gyflwyno'r weledigaeth gyffrous newydd hon, mae'n bleser gen i gyhoeddi heddiw y Gwahoddiad i Dendro (ITT) ar gyfer Partneriaeth Arfordir y Gorllewin, un o'r cystadlaethau cyntaf dan yr agenda ddiwygio a gyhoeddwyd yn fy ngweledigaeth strategol ar gyfer y rheilffyrdd. Mae'r Partneriaeth yn uno gwasanaethau InterCity Arfordir y Gorllewin a chynllunio a chyflwyno'r gwasanaethau HS2 cyntaf.

Mae'r rhyddfrait InterCity Arfordir y Gorllewin wedi bod yn llwyddiannus iawn yn y blynyddoedd diwethaf gyda lefelau uchel o foddhad ymysg cwsmeriaid a thwf sylweddol mewn referniw. Fy mwriad i yw y bydd y contract newydd yn adeiladu ar hyn. Mae yna eisoes berthynas weithredol agos rhwng Network Rail a'r gweithredwr trenau.

Mae'r gystadleuaeth i weithredu Partneriaeth Arfordir y Gorllewin yn gyfle cyffrous i ymgeiswyr drawsnewid Arfordir y Gorllewin a moderneiddio ein rheilffyrdd ar gyfer y teithwyr a chymunedau maent yn gwasanaethu, i fod yn arloesol ac i herio sut mae pethau wedi eu gwneud a'r gwasanaethau a ddarperir ac i osod safonau nid yn unig ar gyfer y wlad yma, ond a fydd yn gosod uchelgais i weddill y byd.

Mae'r fanyleb yn yr ITT wedi ei hysbysu gan dros 1,200 o ymatebion i'r ymgynghoriad cyhoeddus a grynhoir yn y cyhoeddiad hwn. Mae'r ymatebion hyn wedi ein helpu i gynllunio manyleb sy'n rhoi teithwyr yng nghalon y penderfyniadau a wneir gan weithredwr y Partneriaeth.

Amlygodd yr ymatebion i'r ymgynghoriad (Adran 6) bwysigrwydd cael y pethau 'sylfaenol' yn iawn – darparu gwasanaethau o safon, cyson a dibynadwy – a datblygu reilffordd sy'n addas i'r dyfodol. Mae teithwyr hefyd wedi galw am: fwy o le; gwell Wi-Fi; gwella mesurau hygyrchedd; gwella integreiddiad ar draws gwahanol ddulliau trafnidiaeth i wella teithiau o ddrws i ddrws; staff mwy gweladwy a rhagweithiol ar drenau ac mewn gorsafoedd; a gwybodaeth ddibynadwy amser real integredig am deithiau sy'n gywir ac yn gyson. Byddwn yn gofyn am hyn oll gan weithredwr newydd Partneriaeth Arfordir y Gorllewin.



## Rhagair gan yr Ysgrifennydd Trafnidiaeth

Rydym hefyd yn disgwyl i Bartneriaeth Arfordir y Gorllewin hyrwyddo amrywiaeth a chydaddoldeb ar draws y gweithlu, gan annog unigolion o grwpiau heb gynrychiolaeth ddigonol yn y diwydiant rheilffyrdd ac i sicrhau bod 2.5% o gyfanswm cyflogaion y Bartneriaeth yn brentisiaid i annog y genhedlaeth iau i fod yn rhan o ddyfodol ein rheilffyrdd.

### HS2

Yn ogystal â gwella'r gwasanaeth ar gyfer teithwyr heddiw, mae Partneriaeth Arfordir y Gorllewin hefyd y cam nesaf allweddol tuag at gyflawni'r gwasanaethau HS2 newydd, i'w lansio yn 2026.

Mae economi gref yn galw am gysylltedd cryf. Mae'n edefyn a gynhelir trwy gydol Strategaeth Ddiwydiannol y Llywodraeth, ac mae gwasanaethau rheilffyrdd yn chwarae rhan allweddol: ysgogi ffyniant economaidd hirdymor trwy feithrin clystyrau a chysylltedd ar draws dinasoedd a threfi'r Deyrnas Unedig.

Darperir cysylltedd o'r fath nid yn unig gan wasanaethau rhwng dinasoedd, ond hefyd ar wasanaethau rhanbarthol a lleol. O 2026, bydd hefyd yn cael ei ddarparu gan wasanaethau cyflym iawn newydd ar HS2. Mae'n allweddol, felly, fod y genhedlaeth newydd o wasanaethau cyflym iawn yn cael eu cyflwyno mewn modd sy'n gweddu i ac yn hybu'r gwasanaethau InterCity Arfordir y Gorllewin sefydledig.

Bydd Partneriaeth Arfordir y Gorllewin yn darparu cyflwyniad esmwyth o wasanaethau cyflym iawn, a gallai teithwyr hefyd elwa o gyflwyniad cynnar technolegau newydd a ddatblygir ar gyfer HS2 o flaen llaw i'w lansio.

Roedd yna gryn dipyn o ddi-ddordeb mewn ymatebion i'r ymgynghoriad ynghylch rhyngweithio rhwng gwasanaethau rhwng dinasoedd a HS2, a dyfodol y gwasanaethau rhwng dinasoedd wedi i HS2 gyrraedd yn 2026. Bydd cyfleoedd yn ystod oes y Bartneriaeth i deithwyr, busnesau, awdurdodau lleol a chymunedau gael dweud eu dweud o ran llunio dyfodol gwasanaethau HS2.

Rwy'n credu dylai HS2 fod yn weithrediad rheilffyrdd integredig, yn gyfrifol am ei seilwaith a gwasanaethau. Bydd y Bartneriaeth yn darparu arbenigedd i help HS2 esblygu o fod yn sefydliad rheoli gwaith

adeiladu, yn cyflawni un o'r prosiectau mwyaf mae'r wlad hon wedi ei gweld, i fod yn sefydliad cymysg sy'n gallu rhedeg trenau a chyflawni gwasanaeth cwsmeriaid yn ogystal â chwblhau gwaith adeiladu ei rwydwaith.

Er mwyn galluogi cyflawni fy ngweledigaeth, bydd Partneriaeth Arfordir y Gorllewin yn gweithredu'r gwasanaethau cychwynnol ar HS2 o 2026 i fanyleb y llywodraeth ac mewn trefniant math contract rheoli. Yn ystod y cyfnod hwn, bydd y gweithredwr hefyd yn gweithio gyda'r Adran a HS2 i ystyried yr opsiynau ar gyfer y cyflwr terfynol, yn cynnwys beth fyddai angen er mwyn i weithrediadau cwbl integredig gael eu cyflawni gan sefydliad cyfunedig terfynol.

### Casgliad

Rydym yng nghanol un o'r cyfnodau mwyaf cyffrous yn hanes rheilffyrdd y Deyrnas Unedig. Mae lefelau hanesyddol o gyllid Llywodraeth a phreifat yn hybu rhaglen digynsail o fuddsoddiadau sy'n creu mwy o le a threnau newydd sbon ar draws Gogledd, De, Dwyrain a Gorllewin y wlad. Mae gwledydd eraill nawr yn efelychu ein model.

Mae cyhoeddiad yr ITT heddiw ar gyfer Partneriaeth Arfordir y Gorllewin sy'n torri tir newydd yn nodi cam arall eto yn y rhaglen drawsnewid honno, ac un a fydd yn cyflawni newid i'r bobl, cymunedau, trefi, dinasoedd a busnesau ar hyd un o reilffyrdd pwysicaf Prydain a welir unwaith mewn cenhedlaeth.





2

Cyflwyniad



## 2 Ar gyfer beth mae'r ddogfen hon?

Mae'r ddogfen hon yn cyfuno ein hymroddiad i:

Ddarparu gwybodaeth am Bartneriaeth Arfordir y Gorllewin (WCP). Mae hyn yn cynnwys:

- ein gweledigaeth ac amcanion ar gyfer WCP;
- crynodeb o'r fanyleb;
- crynodeb o'r manteision i deithwyr; a
- crynodeb o'r manteision i'r diwydiant rheilffyrdd.

Darparu crynodeb o'r ymgynghoriad cyhoeddus a'r ymatebion a dderbyniwyd. Mae hyn yn cynnwys:

- crynodeb o'r [broses ymgynghori](#);
- amlinelliad o'ch [barnau a blaenoriaethau](#) ar gyfer gwasanaethau InterCity Arfordir y Gorllewin (ICWC)
- [ein hymatebion i'ch barnau](#), a sut mae eich syniadau wedi hysbysu'r fanyleb ar gyfer y rhyddfrait newydd;
- [y gwelliannau](#) i wasanaethau trenau, profiad y cwsmer, gorsafoedd, perfformiad a thocynnau yr ydym wedi eu nodi ar gyfer y rhyddfrait yn y Gwahoddiad i Dendro (ITT) a gyhoeddwyd heddiw hefyd; ac
- ein [cynlluniau i ddatblygu'r gwasanaeth Cyflym lawn 2 \(HS2\)](#) a gweithrediad integredig y gwasanaethau ICWC confensiynol a HS2 wedi 2026.

Rydym yn hynod ddiolchgar i'r holl unigolion a sefydliadau hynny a gymerodd amser ac ymdrech i ymateb, ac i'r rhai hynny a fynychodd y digwyddiadau ymgynghori. Mae'r sylwadau a barnau hyn wedi eu hystyried yn ofalus ac wedi hysbysu datblygiad ein cynlluniau ar gyfer eich gwasanaethau rheilffyrdd dan y Bartneriaeth newydd ac i helpu hysbysu'r ymgeiswyr WCP pa feysydd sy'n arbennig o bwysig i chi.

Sylwer nad yw'n fwriad i'r wybodaeth yn y ddogfen hon ddisodli'r ITT, ac yn achos unrhyw anghysondebau yr ITT sy'n cael blaenoriaeth.







3


Cefndir



## 3 Y gwasanaeth ICWC presennol a HS2

Mae Prif Linell Arfordir y Gorllewin yn un o lwybrau rheilffordd pwysicaf Prydain Fawr ac wedi bod yn arloeswr erioed. Ar 17 Medi 1838, cychwynnodd y trên cyntaf allan o orsaf Llundain Euston tuag at Birmingham Curzon Street ar linell newydd wedi ei hadeiladu gan y peiriannydd gwych Robert Stephenson. Roedd yn gychwyn chwyldro ar y rheilffyrdd: y gwasanaeth trên dros bellter cyntaf y ddaear.

Ffigwr 3.1: Llwybr rhyddfrait ICWC



Mae rhyddfrait ICWC (Ffig 3.1) yn cynnal gwasanaethau rhwng dinasoedd cyflym, dros bellter rhwng Llundain, Birmingham, Manceinion, Lerpwl, Gogledd Cymru, Glasgow a Chaeredin. Mae'n galw mewn 49 o orsafoedd ac yn gwasanaethu 6 o'r dinasoedd mwyaf ym Mhrydain Fawr.

Ers 1997 rydym wedi cynnydd arwyddocaol yn y galw gan deithwyr am wasanaethau ar y llwybr. Ar hyn o bryd mae yna oddeutu 300 o wasanaethau trên y dydd, ac yn 2017 gwelwyd 37 miliwn o deithiau teithwyr.

Yn Rhagfyr 2008 cwblhawyd cam terfynol Moderneiddio Llwybr Arfordir y Gorllewin – buddsoddiad seilwaith o £9 biliwn dros 10 mlynedd a fflyd newydd o drenau cyflym iawn sy'n gogwyddo. Darparodd y prosiect mawr hwn gyflymder uchaf y llinell o 125mya, amserau teithio cyflymach a chapasiti atodol i wasanaethu mwy o leoliadau gyda gwasanaethau trên amlach a chyflymach.

Mae mwyafrif y teithiau gan deithwyr ar ryddfrait yr ICWC ar gyfer hamdden (66%) gyda rhai teithiau – ar gyfer busnes (23%) a nifer fechan yn defnyddio'r gwasanaeth i – gymudo (11%). Mae'n allweddol fod gan y gweithredwr newydd ddealltwriaeth drylwyr o'r marchnadoedd a wasanaethir, a'r opsiynau teithio cystadleuol amgen sydd ar gael i'r cyhoedd ac yn darparu profiad teithio o ansawdd uchel er mwyn cadw a thyfu'r nifer o deithwyr ar arfordir y Gorllewin.

## Y gwasanaeth ICWC presennol a HS2




Ffigwr 3.2: Map llwybr HS2

Heddiw mae Arfordir y gorllewin ar drothwy y trawsnewidiad mwyaf oll: adeiladu ac integreiddio llinell gyflym iawn newydd sbon – High Speed Two (HS2) (Ffig 3.2). Bydd y gwasanaethau trên newydd yn cae; eu lansio gan weithredwr yr WCP. Yn agor yn 2026, bydd Cam 1 yn rhedeg o Llundain Euston i Birmingham Curzon Street a ger Lichfield gyda gorsafoedd ar y ffordd yng Ngorllewin Llundain (yn Old Oak Common) a Maes Awyr Birmingham. Yn 2027, bydd Cam 2a yn agor, gan ymestyn y llinell o Orllewin Canolbarth Lloegr i Crewe. Bydd trenau yn rhedeg ar drac ar wahân i Birmingham a Crewe ac yna ymlaen i Manceinion, Lerpwl a Glasgow ar hyn llinell bresennol Prif Linell Arfordir y Gorllewin.

Bydd HS2 yn dod yn asgwrn cefn newydd ein rhwydwaith rheilffyrdd cenedlaethol, yn cynyddu capasiti ar ein rheilffyrdd gorlawn ble mae fwyaf ei angen; yn gwella cysylltiadau rhwng ein dinasoedd mwyaf a rhanbarthau; ac yn creu swyddi a thwf economaidd i helpu adeiladu economi sy'n gweithio i bawb.

Mae yna fanteision arwyddocaol i ddod â'r prosiectau ICWC a HS2 ynghyd i sicrhau'r canlyniadau gorau posibl i deithwyr, cyn ac wedi cychwyn y gwasanaethau HS2. Mae hyn wedi arwain at benderfyniad y Llywodraeth i lunio'r WCP newydd, a gyhoeddwyd ar 14 Tachwedd 2016.







4

Ein Gweledigaeth



## 4 Gweledigaeth ac amcanion y WCP

### Rhoi teithwyr a chymunedau yng nghalon y WCP

O'r diwrnod cyntaf bydd y WCP newydd yn rhoi teithwyr yng nghalon eu syniadau. Mae manyleb y WCP wedi ei gynllunio i fod yn hyblyg ac i annog yr ymgeiswyr i fod yn greadigol ac arloesol, gan ddefnyddio eu harbenigedd i gyflwyno cynigion cyffrous i ddenu teithwyr presennol a rhai newydd sy'n disgwyl profiad teithio o ansawdd uchel ac sydd â dewisiadau trafndiaeth eraill ar gyfer eu taith.

Bydd gan y Bartneriaeth **Gyfrifoldeb Gymdeithasol Gorfforaethol** i fodloni amrywiol anghenion teithwyr, cymunedau lleol a'i gyflogeion, ac i ymgorffori **Egwyddorion Datblygu Cynaliadwy**<sup>1</sup> y diwydiant rheilffyrdd yn y modd mae'n rhedeg yr WCP.

Bydd y WCP yn cydbwysu anghenion teithwyr a chymunedau, yn datblygu gwasanaethau ar y coridor rheilffyrdd rhwng Llundain, Canolbarth Lloegr, yr Alban a Gogledd Cymru, ac yn Sicrhau bod gwasanaethau ICWC a HS2 yn gweithio mewn modd integredig a chydlynol. Rydym angen i'r Bartneriaeth gyflawni gwelliannau ar gyfer teithwyr o'r diwrnod cyntaf – nid i aros am gyrhaeddiad HS2 – ac i barhau i wella gwasanaethau ar draws cyfnod oes y WCP. Byddant yn cael eu hannog i wneud hyn trwy dargedau boddhad teithwyr newydd ar y gwasanaethau ICWC gyda chosbau uwch os na fodlonir y targedau hyn, a hefyd trwy adolygiadau blynyddol, sy'n cynnwys ystyried gwaith ar y cyd y Bartneriaeth gyda chyrrff cynrychioli teithwyr.

Ar y **gwasanaethau ICWC** confensiynol, bydd y Bartneriaeth yn:

- Parhau i adeiladu ar y lefelau uchel presennol o foddhad teithwyr; trwy ddarparu profiad teithio i deithwyr o ansawdd uchel ar drenau ac mewn gorsafoedd; trwy hybu amgylchedd yr orsaf a gwneud cyfleusterau yn fwy hygrych; a thrwy wneud prisiau a thocynnau yn fwy syml a hawdd i'w cyrchu.
- Parhau i wella dibynadwyedd a phrydlondeb y gwasanaethau trên, gan wella teithiau teithwyr a chysylltedd rhwng y trefi a chymunedau mae'r Bartneriaeth yn gwasanaethu.
- Sicrhau bod unrhyw wasanaethau trên presennol a newydd a ddarperir yn bodloni anghenion y farchnad deithwyr, ac yn ddigon cyson i fodloni'r galw cynyddol gan deithwyr ar y WCP.

I gyd-fynd â'r uchod, bydd y Bartneriaeth yn **'Weithredwr Cysgodol'** ar gyfer cynllunio a datblygu gwasanaethau HS2 newydd.

Fel y Gweithredwr cysgodol, byddant yn gyfrifol am weithio gyda'r holl sefydliadau dan sylw i sicrhau profiad rheilffyrdd i deithwyr sy'n glyfar a syml i'w defnyddio:

- Ar y trenau HS2 newydd ac yn y gorsafoedd.
- Datblygu opsiynau ar gyfer system prisiau newydd ar gyfer gwasanaethau HS2 gyda thocynnau sydd wedi eu hintegreiddio gyda'r system tocynnau trên ehangach.
- Gyda dulliau trafndiaeth eraill yn darparu system hawdd i'w defnyddio ar gyfer teithwyr.



## Gweledigaeth ac amcanion y WCP

Wrth i syniadau a thechnolegau newydd gael eu datblygu ar gyfer gwasanaethau HS2, efallai y bydd cyfleoedd i'r rhain gael eu gweithredu o flaen llaw i lansio HS2, gan wella'r profiad i deithwyr ar Arfordir y Gorllewin a thu hwnt ar y rheilffordd.

Bydd angen i'r ceisiadau consortia ar gyfer y WCP arddangos yn eu ceisiadau sut fyddant yn ymgynghori gyda a gwranddo ar deithwyr presennol a'r dyfodol a rhanddeiliaid i ddeall eu hanghenion ar y gwasanaethau ICWC a HS2, a sut fyddant nid yn unig yn bodloni hyn, ond yn parhau i'w gwella trwy gydol oes y WCP.

Mae gwasanaethau ICWC yn darparu amrywiaeth eang o wasanaethau cymdeithasol ac economaidd pwysig i **gymunedau** ar draws y rhanbarth a byddant yn parhau i wneud hyn dan y Bartneriaeth newydd.

Rydym eisiau i'r WCP gynyddu manteision y Bartneriaeth ar gyfer y cymunedau lleol a wasanaethir. Bydd hyn yn cynnwys:

- Gwella ymgysylltu gyda chymunedau lleol, Partneriaethau Rheilffyrdd Cymunedol a busnesau lleol.
- Darparu cyllid ar gyfer cynlluniau Gwelliant Cymunedol a Chwsmeriaid (CCI).
- Nodi llefydd gwag mewn gorsafoedd ar gyfer defnydd posibl gan y gymuned leol dan eu Cynllun Datblygu Cymdeithasol a Masnachol yr Orsaf.
- Ehangu cyfleoedd ar gyfer masnachwyr lleol a busnesau.
- Gan helpu gwneud gorsafoedd yn gyrchfannau ynddynt eu hunain.

Ar hyn o bryd mae rhyddfrait yr ICWC yn cyflogi dros 3,000 o staff. Bydd y Bartneriaeth newydd yn parhau i fod yn gyflogwr mawr yn gyntaf yn rhedeg y gwasanaethau ICWC ac yna HS2 a'r gwasanaethau ICWC ar eu newydd wedd wedi 2026. Mae'n allweddol fod y WCP yn buddsoddi yn ac yn darparu'r gefnogaeth angenrheidiol i helpu datblygu a diogelu cyfoeth a lles **gweithlu'r** Bartneriaeth, y mae eu rôl yn allweddol i sicrhau gweithrediad esmwyth y Bartneriaeth o ddydd i ddydd. Bydd eu ceisiadau angen arddangos sut fyddant yn:

- Hyrwyddo lefel uchel o ymgysylltu a chydabyddiaeth o berfformiad dda ymysg eu gweithlu.
- Datblygu cyfleoedd i gyflogeion gael dylanwad ar benderfyniadau i sicrhau eu bod yn teimlo wedi eu cynnwys ac yn rhan o'r Bartneriaeth a sut mae'n perfformio.

## Partner cyflawni gwasanaeth sy'n eirioli dros anghenion teithwyr

Ar 29 Tachwedd 2017 cyhoeddodd y Llywodraeth 'Cysylltu pobl: gweledigaeth strategol ar gyfer y rheilffyrdd'. Roedd hyn yn sefydlu llwybr clir i wella gweithio mewn partneriaeth er mwyn gwneud y rheilffordd yn fwy dibynadwy ar gyfer teithwyr a sicrhau ei fod yn gweithio fel un i ddarparu ar gyfer y cwsmeriaid. Mae'r WCP yn ymagwedd newydd sy'n dilyn y model sefydledig o ryddfrentiau a chonhesiynau rheilffyrdd ym Mhrydain Fawr i lefel newydd. Bydd y Bartneriaeth yn:

- Gweithredu fel amddiffynnydd i'r teithiwr.
- Datblygu gwasanaethau cwsmeriaid a thechnolegau'r dyfodol.
- Canolbwyntio ar waith technegol a gweithredol i gael y llwybr yn barod ar gyfer lansiad Cam 1 gwasanaethau HS2 ar gorida'r Arfordir y Gorllewin yn 2026.
- Ein helpu i gymryd y cam mawr nesaf tuag at gyflawni HS2.



Gweledigaeth ac  
amcanion y WCP

I gyflawni hyn, bydd angen i'r Bartneriaeth ddangos uchelgais gwirioneddol, i beidio bod ofn herio'r dulliau presennol o wneud pethau ar y rheilffordd, i ddysgu o weithrediad y rheilffordd, dod â'u sgiliau ac arbenigedd eu hunain a gweithredu syniadau newydd. Rydym wedi gofyn i ymgeiswyr arddangos sut fyddant yn:

2019 ymlaen

**Gwella gwasanaethau ICWC**

- Darparu gwasanaeth eithriadol trwy ddarparu presenoldeb gweladwy, cymwynasgar a rhagweithiol gerbron cwsmeriaid i deithwyr, gwella gwybodaeth, hybu'r amgylchedd, cyfleusterau a'u hygyrchedd ar drenau ac mewn gorsafoedd.
- Dod ag arloesi a thechnoleg blaen y gad i deithiau rheilffyrdd ar sail barhaus, megis gwella cyfathrebiadau a systemau tocynnau.
- Gweithio ochr yn ochr gyda HS2 Cyf, Network Rail a gweithredwyr trenau eraill i gyflawni gwelliant parhaus mewn gorsafoedd ac

i leihau effaith gwaith adeiladu HS2 ar deithwyr a phrofiad eu taith.

- Targedu capasiti trenau i ddelio â gorlenwi, yn arbennig yn ystod y cyfnodau prysuraf i ddarparu teithiau cyfforddus a dymunol.
- Lleihau amserau teithio i wella gwasanaethau'r ICWC i gyrchfannau presennol ar y WCP ac i gyflwyno gwasanaethau i gyrchfannau newydd.
- Gwella a symleiddio teithiau o ddrws i ddrws trwy: wella hygyrchedd i orsafoedd, gwella integreiddiad rhwng gwahanol weithredwyr trenau, a dulliau trafndiaeth eraill (e.e. bysus, llongau) a gwybodaeth am gysylltiadau a systemau tocynnau.
- Buddsoddi yn natblygiad ac amrywiaeth y gweithlu.

2019 ymlaen

**Gweithredwr Cysgodol – cynllunio gwasanaethau HS2**

- Defnyddio eu profiad fel gweithredwr trenau cyflym iawn i helpu gyda chynllunio HS2 yn cynnwys tu fewn y trenau.
- Sicrhau bod teithwyr yn ganolog i'r gwasanaethau HS2 newydd a gwasanaethau ICWC ar eu newydd wedd, gan sicrhau bod gwasanaethau cwsmeriaid a phrisiau a thocynnau o safon byd.

- Datblygu amserlen ble mae'r teithiwr yn ganolog, a gwneud y defnydd gorau o gapasiti a chyflymder y seilwaith newydd.
- Paratoi ar gyfer lansiad gwasanaethau HS2 a'r trosiant esmwyth i'r gwasanaethau ICWC ar eu newydd wedd.
- Darparu cefnogaeth, hyfforddiant a chyfleoedd newydd a gwell ar gyfer staff yn ystod y newidiadau mawr i weithrediad y rheilffyrdd.
- Gweithio gyda HS2 Cyf i brofi'r seilwaith a threnau cyflym iawn, ac i baratoi ar gyfer lansiad y gwasanaethau HS2 cyntaf.

Er mwyn:

2026 ymlaen

**Integreiddio a gweithredu gwasanaethau HS2 a ICWC**

- Cyflawni lansiad esmwyth y gwasanaethau HS2 a'r gwasanaethau ICWC ar eu newydd wedd a fydd yn rhedeg wedi lansio HS2.

- Darparu gwelliannau parhaus i sicrhau y darperir gwasanaeth o safon byd i deithwyr.
- Cyngor ar sefydlu strwythur y dyfodol ar gyfer y contract nesaf wedi pum mlynedd cyntaf gweithredol HS2.



## Gweledigaeth ac amcanion y WCP

**Bydd y WCP yn sicrhau bod y llinell HS2 newydd yn gwbl integredig gyda'r rhwydwaith rheilffyrdd ehangach.**

### Perthnasau mwy hirdymor ac agosach rhwng cwmnïau trenau a thraciaau

Aliniad agosach rhwng gweithrediad a chyflawniad traciau a threnau yn ofyniad allweddol i'r Llywodraeth. Bydd penodi Partneriaeth yn ystod y cam cynnar hwn o'r prosiect HS2 yn helpu adeiladu perthynas mwy hirdymor ac agosach rhwng cwmnïau traciau a threnau. Yn gweithio fel un tîm integredig, byddant yn ymroddedig i fodloni anghenion y teithwyr presennol wrth iddynt gynllunio a pharatoi ar gyfer HS2 i sicrhau'r gwerth gorau ar gyfer prynwyr tocynnau a threthdalwyr. Byddant yn gwella perfformiad gweithredol i helpu gwella boddhad teithwyr trwy Gytundeb Cynghair rhwng WCP a Network Rail.

Bydd gweithio fel tîm integredig yn galluogi datrysiadau i gael eu nodi yn gynt a gallai ddarparu cyfle ar gyfer profion cynnar ac, o bosibl, cyflwyniad trenau HS2 ar y rheilffordd gonfensiynol cyn lansiad HS2. Bydd hyn yn helpu cael y gorau o'r buddsoddiad HS2 ar gyfer HS2 a'r rhwydwaith arferol.

### Ymagwedd hyblyg

Mae'r Weledigaeth Strategol yn cydnabod nad oes un ateb unigol i ddenu ymgeiswyr a'r buddsoddiad a'r buddion a ddaw ar gyfer teithwyr wrth ddiogelu buddsoddiadau trethdalwyr yn ddoeth. Mae angen teilwra'r ymagwedd i gael y cydbwysedd cywir ar gyfer gwahanol farchnadoedd ac amgylchiadau.

Bydd gofyn i ymgeiswyr ar gyfer y WCP arddangos mai nhw yw'r dewis gorau ar gyfer teithwyr a threthdalwyr fel y partner cyflawni ar gyfer y WCP. Bydd yr ymgeisydd llwyddiannus yn cael ei annog i gyflawni'r ymddygiadau cywir trwy gydol y Bartneriaeth. Bydd hyn yn cynnwys adolygiadau ffurfiol i asesu perfformiad blaenorol y gweithredwr er mwyn darparu hyder yn ei allu i gyflawni gwasanaethau HS2, tra'n darparu hyblygrwydd cytundebol ar gyfer datrysiadau arloesol (e.e. Mewn prisiau a thocynnau) i'w datblygu yn ystod cyfnod y bartneriaeth WCP gyda'r Llywodraeth.

Ni fydd gweithredwr trenau WCP yn ennill y cyfle i gomisiynu a gweithredu'r gwasanaethau HS2 cyntaf os na fydd yn llwyddo i basio'r prawf o berfformio gystal â gweithredwr gwasanaethau trên llwybr Arfordir y Gorllewin a bod yn bartner da i'r Llywodraeth a'r gweithredwr seilwaith.

## Amcanion y WCP

Bydd y WCP newydd yn creu rheilffordd mae pobl ei heisiau – cyflym, hawdd i'w defnyddio, hyblyg ac arloesol. Bydd yn hybu uchelgeisiau gan weithio'n agosach gyda staff, gwneud gwell defnydd o dechnoleg a Sicrhau bod teithwyr yn cael y gwasanaeth da maent ei angen bob tro.

Ein gweledigaeth yw un o reilffordd safon byd sy'n cyflawni gwelliannau parhaus ar gyfer teithwyr ac yn uchafu cyfleoedd i bobl a busnesau ar draws y llwybr.

### Ffigwr 4.1: Amcanion y WCP

Hybu twf yn nifer teithwyr	Defnyddio'r gwasanaethau ICWC i ddatblygu'r farchnad ar gyfer teithiau rhwng dinasoedd y mae'r rhyddfaint yn eu gwasanaethu o flaen llaw i gyflwyniad HS2. Wrth wneud hynny, uchafu buddion i gwsmeriaid a chreu'r sylfaen orau ar gyfer dyfodol gwasanaethau ICWC a HS2.
Cyflawni newid arwyddocaol ym mhrofiad y cwsmer i deithwyr	Ar Arfordir y Gorllewin trwy leihau effaith gwaith adeiladu HS2 gan gyflawni meincnod newydd o foddhad cwsmeriaid a chyflwyno technegol newydd o flaen llaw i HS2.
Cyflawni trawsnewidiad ym mhrofiad y cwsmer	Cymryd mantais llawn o gyfle unwaith mewn oed i drawsnewid profiad y cwsmer ar HS2 a'r rhwydwaith bresennol.
Gweithredu fel partner	Ar gyfer yr Adran Drafnidiaeth (DfT), HS2 Cyf, Network Rail a chyryff perthnasol eraill i gefnogi datblygiad a chyflawniad gwasanaethau HS2 i uchafu buddion hirdymor i deithwyr ac i gyflawni manteision economaidd-gymdeithasol sy'n gysylltiedig i HS2.
Cyflawni manteision buddsoddiad presennol	Yn y busnes ICWC tra'n datblygu a chyflawni manteision cynaliadwy hirdymor uchaf posibl ar gyfer teithwyr yn gysylltiedig gyda gwasanaethau integreiddio HS2 gyda gweddill y rhwydwaith rheilffyrdd gan optimeiddio'r defnydd o gapasiti sydd ar gael ar draws y ddaearyddiaeth gyfan tra'n ystyried buddiannau trethdalwyr.
Cyflawni buddion diwydiant cyfan	Trwy fuddsoddiad parhaus yn y gweithlu ac arloesi a gweithio mewn partneriaeth i gyflawni gwasanaethau mewn modd cost effeithiol.
Llwyddo i gyflawni trosiant y gwasanaeth yn 2026	Yn cynnwys y gallu i ymateb yn gyflym, mewn amser real, i newidiadau gofynnol unwaith y bydd gwasanaethau cyflym iawn a chonfensiynol ar eu newydd wedd yn cychwyn.



## Gweledigaeth ac amcanion y WCP

### Ymgeiswyr Rhestr Fer y WCP

Mae'r consortia ymgeisio canlynol ar y rhestr fer i gystadlu ar gyfer y cyfle unigryw hwn i ailgynllunio a datblygu gwasanaethau ICWC sydd eisoes yn llwyddiannus, ac i gynllunio a gweithredu trawsnewidiad y rheilffyrdd ar hyd coridor Arfordir y Gorllewin ar gyfer y gwasanaethau HS2 newydd, ac maent wedi profi fod ganddynt yr arbenigedd o ran cynnal gwasanaethau confensiynol yn y Deyrnas Unedig, i gyflwyno a gweithredu gwasanaethau cyflym iawn, ac hefyd â'r gallu technegol i ymgymryd â'r her:

- **First Trenitalia West Coast Ltd**, menter ar y cyd rhwng First Rail Holdings Ltd a Trenitalia SpA.
- **MTR West Coast Partnership Ltd**, menter ar y cyd rhwng MTR Corporation (UK) Ltd a Guangshen Railway Company, gyda'r isgcontractwyr canlynol:
  - Deloitte MCS Ltd
  - Panasonic Systems Europe
  - Snowfall AB
  - Trainline.com Ltd
  - WSP Parsons Brinkerhoff
- **West Coast Partnership Ltd** menter ar y cyd rhwng Stagecoach Group plc, Virgin Holdings Ltd ac SNCF C3.





5

Crynodeb



## 5 Manteision i deithwyr



Buddsoddiad mawr i ddarparu Wi-Fi o safon a chysylltedd symudol ar bob trên



Cyflwyno iawndal Ad-dalu Oedi, ar gyfer teithwyr y mae eu teithiau wedi eu hoedi o 15 munud neu fwy



Opsiynau tocynnau modern clyfar ar gyfer teithiau hamdden a busnes ac i gymudwyr tocyn tymor



Prisiau gyda gwell gwerth am arian ar gyfer teithwyr rheolaidd, ond yn rhatach na thalu am 5 niwrnod yn ystod yr wythnos waith



Targedau boddhad teithwyr enghreifftiol ar gyfer trenau, gorsafoedd, gwasanaethau cwsmeriaid a delio gydag oedi



Buddsoddi mewn gwelliannau i'r stoc cerbydau presennol



£5.5m ar gyfer cynlluniau Gwelliant Cymunedol a Chwsmeriaid i gyflawni gwelliannau anfasnachol yng nghyfleusterau a gwasanaethau gorsafoedd lleol gyda'r gymuned leol megis gwella cyfleusterau seddi, bagiau neu doiledau mewn gorsafoedd neu well cyfleusterau maes parcio



£380,000 y flwyddyn i ariannu prosiectau a gynigir gan Bartneriaethau Rheilffyrdd Cymunedol



Panel Hygyrchedd newydd i helpu cynllunio cyfleoedd i gynyddu hygyrchedd ar drenau ac mewn gorsafoedd



Strategaeth Diogelu newydd, wedi ei datblygu gyda Heddlu Trafnidiaeth Prydain, i amddiffyn teithwyr cyhoeddus a staff y rheilffordd mewn gorsafoedd



# Manteision rheilffordd gynaliadwy **5**



## Manteision ar gyfer y gweithlu

- Cefnogi amrywiaeth yn y gweithle trwy annog unigolion o grwpiau sydd heb gynrychiolaeth ddigonol yn y diwydiant rheilffyrdd ac annog y genhedlaeth iau i ymuno â'r diwydiant gan sicrhau bod 2.5% o gyfanswm cyflogeion rhyddfrentiau yn brentisiaethau. Yn seiliedig ar niferoedd staff presennol yr ICWC, byddai hyn yn oddeutu 80 o brentisiaid.
- Cefnogi datblygiad gweithlu'r rhyddfrait yn cynnwys trwy fuddsoddi yn eu hyfforddiant a datblygu eu sgiliau, cefnogi cyflawniad y Strategaeth Sgiliau Trafnidiaeth a Seilwaith a'r Cynllun Cyflawni Sgiliau'r Sector Rheilffyrdd.



## Manteision i gymunedau lleol

- Gweithio'n agos gydag awdurdodau trafndiaeth, busnesau a rhanddeiliad lleol i uchafu twf economaidd a gwelliannau cymdeithasol.
- Gwella'r amgylchedd trwy dargedau perfformiad uchelgeisiol yn cwmpasu allyriadau carbon tyniant, defnydd o ynni, defnydd o ddŵr ac ailgylchu gwastraff.
- £120m Gwerth Gweddilliol, yn galluogi ymgeiswyr i ddatblygu cynigion buddsoddiad tymor hir na fyddai fel arfer yn ariannol hyfyw yn ystod oes y rhyddfrait.



## Manteision i'r diwydiant rheilffyrdd

- Partner cynllunio tymor hwy yn gweithio'n agos gyda HS2 Cyf, Network Rail a gweithredwyr eraill yn rhannu gwybodaeth ac arbenigedd. Datblygu gwasanaethau a systemau newydd (e.e. Prisiau, systemau gwerthu tocynnau, systemau gwybodaeth) wedi eu hintegreiddio i'r system drafnidiaeth genedlaethol, nid wedi eu rhedeg ar wahân, gan annog datblygiad ar draws y rhwydwaith rheilffyrdd ehangach.

## 5 Crynodeb Manyldeb y WCP

### Arfordir y Gorllewin

Mae'r Adran wedi datblygu manyleb y WCP i ddarparu hyblygrwydd ac i annog arloesi ar draws y tair nod a sefydlwyd dan Adran 4 Gweledigaeth y WCP:

- Darparu gwasanaethau rheilffordd dibynadwy, o safon ar yr ICWC sy'n bodloni anghenion a disgwyliadau teithwyr, a fydd yn eu tro yn elwa o well gwasanaethau cwsmeriaid, gwell prisiau a thocynnau, a gwell gorsafoedd a chyfleusterau, oll yn bethau a nodwyd gan ymatebwyr i'r ymgynghoriad hwn.
- Cefnogi datblygiad a chynllunio gweithrediadau HS2 a'i baratoi ar gyfer gwasanaeth.
- Rhedeg y gwasanaethau HS2 cychwynnol a'r gwasanaethau ICWC ar eu newydd wedd.

### Hyd y WCP

Bwriedir i'r WCP gychwyn ym Medi 2019 a bydd yn weithredol am 7 mlynedd gychwynnol o wasanaethau ICWC ac yna 5 mlynedd arall o fod yn weithredwr integredig ar gyfer ICWC a HS2, gydag opsiwn i'r Ysgrifennydd Gwladol ymestyn y cyfnod o hyd at 3 blynedd.

### Gwasanaethau Trên

Rydym wedi datblygu atodiad A Gofyniad Gwasanaethau Trên (TSR) i'r ITT sy'n sefydlu'r isafswm lefel gwasanaeth y dylai ymgeiswyr ddarparu, sy'n seiliedig ar y gwasanaethau cyfredol i raddau.

Bydd ymgeiswyr yn targedu capasiti trenau i ble mae'r angen fwyaf i leihau gorlenwi – yn arbennig yn ystod y cyfnodau prysuraf, galw tymhorol a digwyddiadau arbennig.

Mae trafniadaeth yn chwarae rhan allweddol mewn bywyd cyhoeddus ac mae teithwyr angen i'w trenau redeg yn brydlon. Rydym wedi sefydlu targedau Perfformiad Gweithredol i ysgogi'r Bartneriaeth i wneud hyn ac wedi gosod cosbau os na chyflawnir hyn.

Rydym hefyd wedi herio ymgeiswyr i:

- Gwella amserau teithio rhwng cyrchfannau allweddol o lefel heddiw.

- Darparu gwasanaethau atodol (a allai gynnwys gwasanaethau Gŵyl y Banc, neu drenau cyntaf cynharach neu olaf hwyrach).
- Gwella'r gwasanaethau uniongyrchol rhwng lleoliadau o fwn cwmpas daearyddol y Bartneriaeth ble mae'r gwasanaeth uniongyrchol presennol yn gyfyngedig.

### Profiad y cwsmer

Mae teithwyr yn disgwyl i'r trênn gyrraedd mewn pryd, ac i gael iawndal priodol os na fydd. Maent yn disgwyl cyfleusterau modern mewn gorsafoedd ac ar drenau, ac iddynt gae eu cynnal i safon uchel.

Bydd y Bartneriaeth yn cyflawni gwasanaeth cwsmeriaid rhagorol ar drenau ac mewn gorsafoedd, fel y bydd boddhad cwsmeriaid yn gwella i fodloni'r targedau Arolwg Teithwyr Rheilffyrdd Cenedlaethol yr ydym wedi ei gosod yn y Cytundeb Rhyddfrait ac i dalu cosb os na fyddant. Rydym wedi gofyn iddynt gyflwyno cynigion arloesol ac i gyflawni cyfleusterau modern i Sicrhau bod teithwyr yn cael y gorau o'u teithiau.

Rydym yn gofyn iddynt fod yn bresenoldeb gerbron cwsmeriaid sy'n weladwy, cymwynasgar a rhagweithiol ar drenau ac mewn gorsafoedd, gan weithio ar y cyd gyda gweithredwyr trenau eraill a Network Rail i sicrhau y cynhelir lles a chysur teithwyr ar hyd y llwybr.

Byd dy Bartneriaeth yn parhau i hyrwyddo diogelwch a diogeledd teithwyr a staff, yn cynnwys trwy leihau unrhyw ymddygiad gwrthgymdeithasol.

Bydd iawndal os aiff pethau o chwith yn syml, cyflym ac awtomataidd a bydd ganddynt hawl i daliad os bydd eu trênn wedi ei oedi o fwy na 15 munud – o gymharu â'r 30 munud sydd ar gael ar hyn o bryd.

Darperir Wi-Fi o ansawdd uchel ar drenau a bydd gofyn i ymgeiswyr sicrhau y gall teithwyr ddefnyddio e-bost a phori'r rhyngwrwyd yn ddiraffferth yn ystod eu taith.

Yn ogystal â darparu gwybodaeth gywir ac amserol i deithwyr, bydd y Bartneriaeth hefyd yn darparu system syml a hygyrch i deithwyr gysylltu â nhw i adrodd am unrhyw broblemau neu wallau y gall y gweithredwr ddelio â nhw'n gyflym.

## Crynodeb Manyldeb y WCP

5

Bydd ymgeiswyr yn derbyn credydau ychwanegol ar gyfer:

- Mentrau i wella'r broses o fyrddio yn Llundain Euston.
- Cynigion, a allai gynnwys treialon, i gyflwyno technolegau ac arloesiadau i hybu gwasanaethau cwsmeriaid yn arwyddocaol.

### Darparu gwell gorsafoedd

Mae eich ymatebion i'r ymgynghoriad cyhoeddus a data Arolwg teithwyr y Rheilffyrdd Cenedlaethol Transport Focus yn dangos y gall gorsafoedd a'u hamgylchedd gael effaith arwyddocaol ar brofiad y teithiwr. Rydym wedi gosod targedau, yn seiliedig ar ddata Arolwg Teithwyr y Rheilffyrdd Cenedlaethol, i ymgeiswyr allu gwella boddhad teithwyr yn gyson gyda chyfleusterau mewn gorsafoedd drwy gydol y Bartneriaeth, gan gyflwyno cosbau ariannol ar gyfer y Bartneriaeth os nad yw'n bodloni'r rhain.

Bydd gofyn i'r Bartneriaeth: wella amgylchedd yr orsaf, sicrhau bod cyfleusterau gorsafoedd yn hygyrch i'r holl deithwyr (yn cynnwys y rhai gyda namau corffol, meddyliol, synhwyraidd neu wybyddol), gwella darpariaethau ar gyfer cysur a diogelwch corfforol cwsmeriaid o'r elfennau, a darparu cyfleusterau masnachol, manwerthu ac adloniant o safon uchel.

Rydym wedi gofyn i'r Bartneriaeth wneud gwell defnydd o gyfleusterau presennol trwy reoli gorsafoedd fel asedau hirdymor a bydd yn datblygu cynlluniau i archwilio'r potensial i ofod mewn gorsafoedd naill ai gael ei ddatblygu'n fasnachol neu ei wneud ar gael i'w ddefnyddio gan gymunedau lleol.

Fe wnaethom wrando ar eich ymatebion parthed mynediad i'r orsaf a chyfnwid; bydd yn rhaid herio ymgeiswyr i ddatblygu eu cynigion i wella mynediad, llwybro a chyfnwid gyda moddau trafniadaeth eraill mewn gorsafoedd.

O ystyried fod nifer o ymatebion yn ymwneud â gorsafoedd a reolir gan Nifer yr Ymatebion neu weithredwyr eraill, bydd yn ofynnol i ymgeiswyr ddatblygu strategaeth ar gyfer gweithio mewn partneriaeth â Network Rail a gweithredwyr eraill i gyflawni gwelliannau yn y gorsafoedd hyn.

### Prisiau a thocynnau

Dengys yr ymatebion i'r ymgynghoriad fod yna gyfleodd gwirioneddol i wella profiad teithwyr o brisiau a thocynnau. Mae'n ofynnol i ymgeiswyr gynnig prisiau sy'n hawdd eu deall, a Sicrhau bod gwybodaeth am brisiau a thocynnau yn cael eu cyfathrebu'n glir a thryloyw i gwsmeriaid fel eu bod yn gallu dewis y pris mwyaf addas ar gyfer eu taith.

Bydd ymgeiswyr yn cynnig strategaeth i wella'r profiad tocynnau, yn cynnwys sut fyddant yn datblygu a threfnu technoleg tocynnau clyfar, fel bod cwsmeriaid yn cael mynediad eang a hwylus i'r dewis llawn o docynnau, gydag amrywiaeth o gyfleodd masnachu tocynnau sy'n bodloni eu hanghenion. Bydd yn ofynnol i'r Bartneriaeth gynyddu'r defnydd o docynnau clyfar a chyflwyno cynnyrch prisiau i greu mantais i deithwyr sy'n gweithio neu'n cymudo rhan-amser.

Fe anogir ymgeiswyr i wneud y cynnig gorau o ran:

- Ehangu tocynnau trwedd ar ddulliau trafniadaeth gyhoeddus eraill i deithwyr allu teithio o ddrws i ddrws yn ddidrafferth.
- Cynnig yr un prisiau i gwsmeriaid pan fyddant yn archeb u waeth beth yw'r dull o werthu (e.e. Ar-lein, ap neu swyddfa docynnau), er enghraifft trwy gynnig gwarant pris.

### Gweithlu

Mae gweithlu'r Bartneriaeth yn chwarae rôl allweddol ar draws pob agwedd o'r WCP. Bydd y Bartneriaeth yn arwain a rheoli ei sefydliad i drawsnewid profiad teithwyr ar y gwasanaethau ICWC, sicrhau lansiad esmwyth y gwasanaethau HS2, a chyflawni amcanion y WCP tra'n lleihau amhariad i staff, teithwyr a gwasanaethau.

Bydd gweithredwr y WCP yn buddsoddi yn ei weithlu ar bob lefel trwy gydol y gweithrediad. Bydd hyn yn cynnwys: buddsoddi mewn hyfforddiant; cyflogi pobl o ran rolau sy'n eu bodloni ac yn cytundebol sicr a chreu cyfleodd newydd ar gyfer cyflogaeth a gyrfaoedd; hyrwyddo amrywiaeth a chydraddoldeb ar draws pob gradd; a denu pobl sy'n newydd i'r diwydiant rheilffyrdd, yn arbennig o grwpiau sydd heb gynrychiolaeth ddigonol.



## Crynodeb Manyldeb y WCP

Bydd yr Adran hefyd yn gofyn i'r Bartneriaeth gynllunio a rheoli'r trosiant i'r Contract Gweithrediadau Integredig pan fydd gwasanaethau HS2 yn cael eu lansio.

### Cydweithio

Mae gweithio mewn partneriaeth yn allweddol. Bydd y WCP yn mynd i Brotocol Partneriaeth gyda HS2 Cyf a fydd yn cynnwys r ymagwedd i weithio ar y cyd a chydweithredu i gyflawni eu cyfrifoldebau yn effeithiol a Chytundeb Cynghrair gyda Network Rail a fydd yn cynnwys gwella boddhad cwsmeriaid, perfformiad gweithredol, gwaith paratoi ar gyfer cychwyn llwyddiannus y gwasanaethau HS2.

Bydd hefyd yn ofynnol i ymgeiswyr sefydlu sut fyddant yn ymgysylltu gyda rhanddeiliaid ar wasanaethau HS2 yn y dyfodol, gan gynnwys sut fyddant yn cipio a gweithredu syniadau ar gyfer arloesi gan gyflogeion, teithwyr, cymunedau a Phartneriaid Diwydiant.

### Gweithredwr Cysgodol

O'r foment y bydd y cynigydd llwyddiannus yn cychwyn y WCP yn 2019, bydd yn dod yn Weithredwr Cysgodol ar gyfer HS2. Mae hyn yn golygu gweithredu fel cwsmer ar yfer y seilwaith newydd a chynllunio gwasanaethau ar gyfer y dyfodol, tra hefyd yn cynllunio ailffurfweddu gwasanaethau ICWC. Bydd y WCP yn sicrhau bod anghenion teithwyr yn ganolog i gynllun y rheilffordd a gwasanaethau newydd. Mae hyn yn gyfle unigryw i lunio'r gwasanaethau HS2 cyn i'r linell agor.

Bydd y Bartneriaeth yn ganolog i ddatblygu cynlluniau i wneud y gorau o'r cyfle unwaith mewn cenhedlaeth yma, a bydd hefyd yn helpu datrys rhywfaint o'r gwrthdaro a heriau a ddaw gydag unrhyw brosiect ar y raddfa hon. O 2019 ymlaen, byddant yn gweithio ar y cyd gyda HS2 Cyf a'r Llywodraeth i lunio dyfodol gwasanaethau cyflym iawn. Er mwyn sicrhau y gwneir penderfyniadau gyda safbwynt y teithiwr a ffocws ar gyflawni manteision HS2, bydd y Llywodraeth yn rheoli'r broses hon yn agos ac mae'n gosod mecanweithiau ysgogol ar gyfer WCP sy'n seiliedig ar y perfformiad hwnnw, yn cynnwys adolygiad parodrwydd cyn symud ymlaen i'r cam Contract Gweithrediadau.

Bydd y broses hon yn caniatáu i'r Gweithredwr Cysgodol ffocysu ar ddatblygu'r cynnig gorau ar gyfer cwsmeriaid, gan gynnwys:

- Amserlennu
- Amgylchedd ar y trê
- Strwythur prisiau
- Tocynnau clyfar
- Cyfleusterau gorsaf hwylus i gwsmeriaid
- Gwybodaeth i deithwyr ar bob agwedd o'r daith

### Contract Gweithredwr Integredig

O 2026 ymlaen, bydd y Bartneriaeth yn symud ymlaen i redeg ar Contract Gweithredu Integredig. Ar y pwynt hwn, bydd y WCP yn rhedeg y gwasanaethau HS2 cychwynnol ar y llinell HS2 newydd, yn ogystal â'r gwasanaethau wedi eu hailffurfweddu ar y llwybr WCML presennol. Yn 2027, bydd Cam 2a HS2 yn agor, gan ymestyn y llinell gyflym iawn mor bell â Crewe.

Bydd y DfT yn cymryd risg cost a referniw ac yn rheoli'r contract yn weithredol yn ei oes i ganiatáu ar gyfer gwneud penderfyniadau ymatebol wrth i wasanaethau cyflym iawn gael eu cyflwyno. Bydd gweithrediad gwasanaethau HS2 yn debyg i consesiwn, fel y model London Overground ar gyfer Transport for London (TfL).

Fe fydd yna fecanweithiau ysgogi seiliedig ar berfformiad is sicrhau fod y Bartneriaeth yn canolbwyntio ar gyflawni gwasanaethau sy'n perfformio'n dda a gwasanaeth cwsmeriaid rhagorol, gan barhau i wella hyd at ddiwedd y Bartneriaeth.

Bydd cam yma'r gwaith yn cael ei gadw ar hyd sy'n ddigonol i setlo'r gwasanaethau HS2 i mewn yn unig, gan eu hintegreiddio'n effeithiol gyda'r rhwydwaith rheilffyrdd a chasglu gwybodaeth ar batrymau galw cwsmeriaid a referniw i allu cynllunio a chwblhau'r contract(au) olynol.

Fe ddatblygir y fanyleb wedi 2026 yn seiliedig ar waith cynllunio'r Gweithredwr Cysgodol. Bydd cyfleoedd yn ystod oes y Bartneriaeth i deithwyr, busnesau, awdurdodau lleol a chymunedau gael dweud eu dweud o ran llunio dyfodol gwasanaethau HS2. Trwy gydol y gwaith yma, mae'r Llywodraeth yn cadw'r hawl i wneud penderfyniadau terfynol.





6

Ymatebion i'r  
Ymgynghoriad



## 6 Ymatebion i'r ymgynghoriad

Cynhaliodd yr Adran ymgynghoriad cyhoeddus ar gyfer y rhyddfraint ICWC rhwng 10 Mai a 2 Awst 2016. Fe ddarparodd wybodaeth gefndirol ynghylch y gwasanaethau ICWC cyfredol a cheisio barnau ar y gwasanaethau ac opsiynau hyn yr oedd rhanddeiliaid a'r cyhoedd eisiau i'r Adran ystyried.

Defnyddiwyd y barnau hyn i hysbysu datblygiad y fanyleb cyn 2026. Bydd wedi 2026 yn destun ymgynghoriad arall.

Cyhoeddwyd yr ymgynghoriad y wefan GOV.UK a'i gyhoeddi ar Twitter a'i hyrwyddo ym mhob gorsaf a wasanaethir gan yr ICWC. Cynhaliwyd digwyddiadau ymgynghori ar gyfer y cyhoedd a rhanddeiliaid ar hyd y ffordd.

Derbyniwyd dros 1,200 o ymatebion unigol, cymunedol, awdurdod lleol ac eraill i'r ymgynghoriad, fel y cofnodir yn Nhablau 6.1 a 6.2. Ceir rhestr o sefydliadau a ymatebodd yn Atodiad 7. Derbyniwyd dros 400 o negeseuon e-bost i gefnogi tocynnau tymor rhan amser hefyd. Mae Ffigwr 6.1 yn dangos

cwmpas daearyddol gwych yr ymatebion i'r ymgynghoriad ar draws Prydain Fawr.

Cynigiodd yr ymgynghoriad gyfle i'r cyhoedd a rhanddeiliaid roi sylw ar amrediad o faterion, er enghraifft, sut i wella profiad y teithiwr, sut i wella gwasanaethau trên, sut allai'r Bartneriaeth gefnogi cymunedau a pharchu'r amgylchedd yn well a sut y gellid gwneud y rheilffordd yn fwy hygyrch a phrisiau.

Roedd y cwestiwn olaf yn gyfle i ymatebwyr godi unrhyw bwyntiau atodol. Defnyddiodd nifer hyn i ofyn am ryngweithio rhwng gwasanaethau rhwng dinasoedd a HS2, a dyfodol y gwasanaethau rhwng dinasoedd wedi i HS2 gyrraedd yn 2026. Mae'r rhain wedi helpu ein dealltwriaeth ynghylch y meysydd sydd o ddiddordeb mwyaf i deithwyr a rhanddeiliaid. Fodd bynnag, byddwn yn dal i ymgynghori â phobl ar wasanaethau HS2.

**Tabl 6.1: Dadansoddiad o ymatebion i'r ymgynghoriad**

Categori ymateb	Ymatebion
Unigolion	730
Awdurdodau Lleol / Gweinyddiaethau Datganoledig/ Partneriaethau Menter Lleol / Cynghorau Tref a Chymuned	56
Cynrychiolwyr Teithwyr / Ymgyrchwyr Rheilffyrdd	47
Diwydiant Rheilffyrdd	5
Diwydiant Arall	17
Undebau Rheilffyrdd	3
Gwleidyddion	10
Ymgyrch ar gyfer Tocynnau tymor rhan amser	415
Diwydiant Rheilffyrdd	35
<b>Cyfanswm</b>	<b>1,283</b>

**Tabl 6.2: Math o ymateb**

Math o ymateb	Nifer yr Ymatebion
E-bost	666
Holiadur Ar-lein	582
Llythyr	35
<b>Cyfanswm</b>	<b>1,283</b>



Mae'r adran hon yn dilyn strwythur y cwestiynau a holwyd yn yr ymgynghoriad.

### Prif themâu

Gofynnodd yr ymgynghoriad 11 cwestiwn, wedi eu grwpio yn 8 categori:


A	Profiad a boddhad y cwsmer
B	Gwybodaeth
C	Gwasanaethau trên
D	Cefnogi'r gymuned
E	Gorsafoedd
F	Gwneud y rheilffordd yn fwy hygyrch i bawb
G	Prisiau a thocynnau
H	Meysydd eraill na drafodwyd

Mae is-adrannau A – H yn amlinellu sut mae eich barnau wedi hysbysu'r fanyleb, a strwythurwyd yn unol â'r themâu uchod

➤ Gwnaeth dros 60% o'r ymatebwyr sylw ar bob pwnc, gyda'r niferoedd uchaf yn amlygu eu blaenoriaeth ar gyfer sedd ar drên ac am wybodaeth ar draws pob maes, yn cynnwys cynllunio teithiau a phrynu tocynnau, dewisiadau mewn gwahanol senarios a phwysigrwydd y gweithredwr yn gysylltiedig, yn arbennig pan fydd pethau'n mynd o chwith.

➤ Roedd ymatebwyr eisiau cynnal lefelau gwasanaeth trenau cyfredol a'u cynyddu, gan wella gysylltiadau gyda gwasanaethau trên eraill yn rhan o deithiau dros bellter ac ar benwythnosau a gyda'r nos i gyd-fynd yn well â'r galw. Roedd gwrthwynebiad i unrhyw ostyngiadau.

## 6 Ymatebion i ymgynghoriadau





## A. Profiad a boddhad y cwsmer



- 1
- Fe restrom enghreifftiau o feysydd a nodwyd y byddai cwsmeriaid yn hoffi eu gweld gwelliant arnynt fwyaf ar eu taith ICWC a gofyn i chi raddio eich 5 uchaf. (1 - uchaf, 5 - isaf)  
Roedd y gyfradd ymateb i'r cwestiwn hwn yn 91%.
  - Gofynnem hefyd os oedd yna unrhyw feysydd eraill yr hoffai ymatebwyr weld gwelliant arnynt nad oeddynt wedi eu cynnwys yn yr enghreifftiau a restrwyd.  
Roedd y gyfradd ymateb i'r cwestiwn hwn yn 51%.

### Ein barn

Mae boddhad cwsmeriaid ar wasanaethau ICWC yn uchel, gydag Arolwg Teithwyr y Rheilffyrdd Cenedlaethol Hydref 2017 yn dangos boddhad cyffredinol ar 91%. Rydym eisiau gwelliant parhaus i ansawdd gyffredinol gwasanaethau ar gyfer cwsmeriaid ICWC ar y trenau ac mewn gorsafoedd, ac fe ofynnem am farnau ar pa feysydd sydd angen gwelliant yn benodol. Mae darparu Wi-Fi o ansawdd uchel a gwella cwmpas rhwydweithiau ffôn symudol yn flaenoriaeth i'r Llywodraeth.



## 6 A. Profiad a boddhad y cwsmer

### Eich ymateb

a. Y prif flaenoriaeth ar gyfer gwelliant i deithwyr a rhanddeiliaid oedd **capasiti ar y trên** gyda tua 26% o'r ymatebwyr yn dweud mai cael sedd oedd eu prif flaenoriaeth. Roedd hyn wir waeth beth oedd y llwybr, rhanbarth neu amser o'r dydd ar gyfer y daith.


Yn dilyn hyn roedd **gwella cyfathrebu gwybodaeth pan fydd pethau'n mynd o chwith** gyda tua 16% o'r ymatebwyr yn rhoi hyn fel eu blaenoriaeth uchaf.

**Nododd ymatebwyr hefyd fwy o le ar gyfer bagiau, bygis, cadeiriau olwyn a beiciau** i gefnogi'r farchnad hamdden fwy a wasanaethir gan y gwasanaethau trên ar arfordir y gorllewin.


b. Mewn ymateb i'r cwestiwn hwn, **Cyfathrebu yn gyffredinol** a gafodd y gyfradd ymateb fwyaf ar gyfer enghreifftiau nad oeddynt wedi eu rhestr yn y ddogfen ymgynghori, gan ddangos pwysigrwydd hyn i gwsmeriaid a'r amrediad eang o feysydd mae'n berthnasol iddynt. **Blaenoriaethau eraill** a grybwyllwyd gan ymatebwyr oedd: darparu gwasanaethau Wi-Fi gyda signal dibynadwy, pwyntiau gwefru hawdd i'w cyrraedd a hybu signal ffôn mewn gorsafoedd ac ar drenau; gwelliannau i systemau archebu seddi,, ardaloedd aros; a pharcio am ddim ar gyfer deiliaid bathodyn glas yn meysydd parcio gorsafoedd.

### Prif Flaenoriaethau Ymatebwyr


 **26%** yn dweud fod cael sedd yn brif flaenoriaeth


 **16%** eisiau cael gwybod am unrhyw oedi pan fydd pethau'n mynd o chwith

 **11%** yn dweud fod cyfleusterau toiled ar drenau yn flaenoriaeth


 **7%** o ymatebwyr yn nodi cyfleusterau parcio ceir mewn gorsafoedd trên a lle i fagio fel eu prif flaenoriaeth

Roedd gan bedwar maes **5%** o ymatebwyr yr un


 staff yn fwy gweladwy mewn gorsafoedd ac ar drenau


 dull mwy rhagweithiol o ymdrin â gwasanaeth cwsmeriaid mewn gorsafoedd trên


 argaeledd seddi mewn gorsafoedd trên

 mynd rhwng y trên a'r man ymgynnull

Roedd gan dri maes y nifer yma **4%** o ymatebwyr yn dweud mai dyma oedd eu prif flaenoriaeth

 cydnabyddiaeth a gwobrwyo i gwsmeriaid (e.e. cynlluniau teyrngarwch)

 mynediad at arlwyo a lluniaeth ar fwrdd y trên

 bodlonrwydd cyffredinol â'r orsaf a'i glanweithdra

## A. Profiad a boddhad y cwsmer



### Ein cynlluniau ar gyfer ICWC cyn lansio HS2

Rydym wedi nodi yn yr ITT y dylai cwsmeriaid allu gweld gwelliannau mewn gwasanaeth cwsmeriaid o gychwyn y Bartneriaeth. Dylai teithwyr deimlo eu bod yn gwsmeriaid dilys ble nad ydym yn cymryd eu nawdd yn ganiataol o flaen llaw i agor HS2. Fe ategir y gofynion hyn gan y farchnad teithwyr ar y WCP sy'n disgwyl profiad teithio o ansawdd uchel ac sydd ag opsiynau teithio cystadleuol i gwblhau eu taith, sy'n golygu fod gan y Bartneriaeth ysgogiad cryf i wella'r cynnig i gwsmeriaid.

Bydd yn ofynnol i ymgeiswyr sefydlu sut fyddant yn [darparu gwasanaeth enghreifftiol i'r holl deithwyr \(yn cynnwys pobl gyda nam corfforol, meddyliol, synhwyraidd neu wybyddol\)](#) gan gynnwys trwy:

- Barhau i ddatblygu eu staff yn wynebu'r cyhoedd.
- Darparu presenoldeb gerbron cwsmeriaid hynod weladwy a rhagweithiol mewn gorsafoedd ac ar drenau.
- Gwella cymorth a gwybodaeth ar bob cam o daith cwsmer, yn arbennig pan fydd pethau'n mynd o chwith.
- Gwella'r amgylchedd a gwella cyfleusterau mewn gorsafoedd.
- Cyflwyno Panel Hygyrchedd i nodi a gweithredu cyfleoedd i gynyddu hygyrchedd y WCP yn gyffredinol.
- Gwella diogelwch a diogeledd ar drenau ac mewn gorsafoedd.
- Delio gyda chwynion teithwyr mewn modd sy'n eu bodloni.
- Cydweithredu gyda phartneriaid diwydiant i leihau amhariad posibl o ganlyniad i waith adeiladu HS2 ar deithwyr.

Bydd angen i ymgeiswyr hefyd ddweud sut fyddant yn [darparu trenau gyda dyluniad mewnol a ffurfweddiad seddi sy'n bodloni anghenion teithwyr Rhwng Dinasoedd](#), fel lle i storio bagiau a beiciau. Bydd hefyd angen sefydlu sut fyddant yn darparu [Wi-Fi o ansawdd uchel ar drenau](#). Bydd hyn yn galluogi teithwyr hamdden, busnes a chymudo i ddefnyddio e-bost a phori'r rhyngwrwyd yn ddidrafferth ar eu taith.

Dan y Bartneriaeth, [bydd iawndal wedi ei wella ac yn cael ei dalu os bydd teithiau teithwyr wedi eu hoedi o fwy na 15 munud](#) – i lawr o'r cynllun Ad-dalu Oedi presennol o 30 munud – gan sicrhau bod cwsmeriaid yn derbyn iawndal gwell os ceir anghyfleuster, ac yn annog y Bartneriaeth i wella perfformiad.





## A. Profiad a boddhad y cwsmer

### Ein cynlluniau profiad y cwsmer yn dilyn lansio HS2

Rydym yn awyddus i gyflwyniad gwasanaethau HS2 arwain at feincnod newydd ar gyfer profiadau teithwyr. Yn ogystal ag adeiladu ar waith a wneir gan y Bartneriaeth ar y gwasanaethau ICWC presennol, bydd cyflwyniad gwasanaethau HS2 newydd yn darparu cyfle i'r WCP ar gyfer arloesi a newid arwyddocaol mewn gwasanaeth cwsmeriaid a chyfleusterau modern.

Yn y cyfnod cyn lansiad HS2, bydd y WCP yn gyfrifol am gynllunio profiad cwsmer ar ddull newydd, i ddiffinio sut fydd cwsmeriaid yn cael eu gwasanaethu ar drenau ac mewn gorsafoedd, sut i ddarparu cymorth a gwybodaeth cyn, yn ystod ac wedi eu teithiau. Mae hyn yn gyfle gwych i'r Bartneriaeth ymgysylltu'n llawn gyda cwsmeriaid, rhanddeiliaid a'r gymuned cynllunio i brofi cynigion cwsmeriaid newydd ac arloesol, gan helpu sicrhau bod y cynnig terfynol i deithwyr ar wasanaethau HS2 newydd o safon byd.

Bydd gwasanaethau ICWC presennol hefyd yn cael eu hailddatblygu, gan arwain at gynnig cydgysylltiedig i gwsmeriaid ar draws y ddau wasanaeth.

Yn y gwaith cynllunio hwn, bydd y Bartneriaeth yn cael ei herio i gyflawni, a rhagori ar, ddisgwyliadau cwsmeriaid, a dylai ganolbwyntio ar feithrin perthnasau ystyrlon â chwsmeriaid yn seiliedig ar ymddiriedaeth, ymroddiad, cydnabyddiaeth a gwobrwyo.

## B. Gwybodaeth

6

2

Pa fath/ddull o gyfathrebu ydych chi yn ei weld yn fwyaf effeithiol yn y senarios isod (Gall hyn gynnwys, ond nid yw'n cael ei gyfyngu i, siarad â gwasanaethau cwsmeriaid, hysbysiadau mewn gorsafoedd, taflenni, cyhoeddiadau llais, gwybodaeth ar weffannau neu gyfryngau cymdeithasol. Pan fydd hynny'n bosibl rhwng y rhesymau am eich atebion).

- Eich galluogi i gynllunio eich taith ar y trê'n o un pen i'r llall a;
- Cael gwybod ymlaen llaw am amhariadau sy'n hysbys fel gwaith peirianyddol a gynlluniwyd?
- Cael gwybodaeth yn ystod amhariadau heb eu cynllunio cyn i chi deithio ac yn ystod y daith.

Roedd y gyfradd ymateb i'r cwestiwn hwn yn 94%.

## Ein barn

Mae'r Adran yn cydnabod pwysigrwydd gwybodaeth gywir ac amserol ar gyfer teithwyr – p'un a ydynt yn cynllunio neu'n gwneud taith neu'n prynu tocyn – a'r angen am wybodaeth glir, cryno a chyson, heb jargon, i wneud penderfyniad gwybodus.

Mae sawl ffordd o ddarparu gwybodaeth, fel trwy dechnoleg neu staff yn wynebu'r cyhoedd, ac roeddem eisiau gwybod beth oedd yn ddefnyddiol i chi a sut y gellid gwella ar hyn, yn arbennig yn ystod amhariadau.




## 6 B. Gwybodaeth

### Eich ymateb

#### Ar gyfer cynllunio teithiau pen i ben

Dywedodd y rhan fwyaf o ymatebwyr eu bod yn defnyddio gwefannau neu apiau i gynllunio teithiau a phrynu tocynnau. Dywedodd rhai ei bod yn bwysig cadw amserlenni wedi eu hargraffu, hysbysiadau papur ac argaeledd staff, ar gyfer y rhai heb fawr ddim neu ddim mynediad i'r rhyngwyd.


**Ffigur 6.2: Dull dewisol o gyfathrebu i gynllunio taith pen i ben**



#### Cael gwybod o flaen llaw am amhariadau hysbys

Roedd ymatebwyr eisïau i'r gweithredwr weithio'n agos gyda rhanddeiliaid a gweithredwyr teithiau eraill i leihau amhariadau ac i ddarparu gwybodaeth o flaen llaw i gyflogwyr mawr lleol a phrifysgolion i helpu cyfathrebu hyn i'r cyhoedd. Gofynnodd ymatebwyr am leihau defnydd o fysis i gymryd lle trenau. Pan fyddant yn angenrheidiol, roeddynt eisïau i'r gweithredwr ddarparu lle storio digonol ar gyfer beiciau, bygis a chadeiriau olwyn.

**Ffigur 6.3: Gwybod o flaen llaw am amhariadau hysbys**




#### Gwybodaeth a gyfathrebir yn ystod amhariadau heb eu cynllunio

Roedd ymatebwyr eisïau i staff gwybodus fod ar gael yn ystod cyfnodau o amhariadau heb eu cynllunio, gan ddarparu cyhoeddiadau a gwybodaeth llwybrau amgen ar drenau ac mewn gorsafoedd, a chael gwared ar gyfyngiadau ar docynnau.

Gofynnodd rhai rhanddeiliaid am ddarparu gwybodaeth clywedol gywir yn Gymraeg a Saesneg.

**Ffigur 6.4: Dulliau cyfathrebu yn ystod amhariadau heb eu cynllunio**





## Ein cynlluniau ar gyfer Arfordir y Gorllewin cyn lansio HS2

Mae cyfathrebu da yn allweddol, p'un ai'n cynllunio neu fynd ar deithiau trên, mewn gorsafoedd ac ar drenau. Rydym wedi nodi nifer o welliannau yn yr ITT i drawsnewid hyn ar gyfer pob cwsmer, yn cynnwys pobl gyda namau corfforol, meddyliol, synhwyraidd neu wybyddol.

### Technoleg

Rydym eisiau technoleg arloesol a newydd gan y Bartneriaeth i ddarparu gwybodaeth gywir, amserol a chyson ar gyfer teithwyr ar draws y gwahanol ddulliau cyfathrebu. Dylai hyn fod yn hawdd i'w chyrru a deall a chynnwys manylion dulliau trafndiaeth eraill (e.e. Bysus a llongau) i alluogi teithiau pen i ben haws. Bydd hefyd yn cynnwys Wi-Fi o ansawdd uchel ar drenau.

### Prisiau a thocynnau

Rydym yn cydnabod y bydd hyn yn faes cymhleth ac yn gofyn i'r Bartneriaeth gyfathrebu gwybodaeth am brisiau a thocynnau mewn modd clir a thryloyw, gan ddarparu gwybodaeth gyson ar draws yr holl opsiynau masnachu tocynnau. Rydym hefyd wedi herio'r ymgeiswyr i gynnig gwelliannau arwyddocaol ar gyfer peiriannau gwerthu tocynnau.

### Staff yn wynebu'r cyhoedd

Rydym yn gofyn i'r Bartneriaeth ddarparu presenoldeb mwy gweladwy a rhagweithiol gerbron cwsmeriaid ar drenau ac mewn gorsafoedd a thrwy ffrydiau cefnogaeth eraill (e.e. Pwyntiau cymorth, canolfannau galwadau a chyfryngau cymdeithasol). Bydd y Bartneriaeth yn darparu hyfforddiant a thechnoleg i'r gweithlu i'w cefnogi yn y rolau allweddol a gyflawnir.

Fe roddir credyd ychwanegol ar gyfer cynigion i weithredu cyhoeddiadau yn y Gymraeg ar wasanaethau sy'n croesi'r ffin i ac o Gymru.

### Gwybodaeth HS2

Roedd ymatebwyr yn glir fod hyn o ddiddordeb mawr iddynt. Rydym yn gofyn i weithredwr y WCP sicrhau bod cwsmeriaid yn ymwybodol o'r datblygiadau diweddaraf yn y prosiect HS2, a bod newidiadau a gwelliannau yn cael eu cyfathrebu'n glir.

### Cydweithredu

Bydd diwylliant o bartneriaeth a chydweithredu ar draws y WCP, yn cynnwys gweithio gyda gweithredwyr trenau a darparwyr trafndiaeth eraill, a Chytundeb Cynghair gyda Network Rail, i rannu gwybodaeth gywir a chyfredol gyda theithwyr a rhanddeiliaid ar oedi ac amhariadau.

## 6 B. Gwybodaeth

### Datblygu ein gwybodaeth i gwsmeriaid yn dilyn lansio HS2

Bydd y WCP yn adeiladu ar eu cynlluniau gwybodaeth teithwyr yn gynnar yn y Bartneriaeth i gynllunio sut y gellir darparu gwybodaeth o ansawdd uchel i deithwyr ar gyfer y gwasanaethau cyflym iawn newydd.

Bydd y gofynion gwybodaeth i gwsmeriaid ar gyfer HS2 yn cael eu datblygu yn ystod oes y Bartneriaeth, gydag ymgysylltu llawn â'r cyhoedd a'r cymunedau cynllunio a gwybodaeth. Bydd gwasanaethau HS2 yn elwa o'r arloesiadau diweddaraf mewn cyfathrebiadau cwsmeriaid gyda chyfleusterau cyfathrebu integredig modern, yn galluogi cwsmeriaid i fod yn ymwybodol o unrhyw ddatblygiadau ar hyd amrywiol gamau eu taith.



C. Gwasanaethau  
trên

3

A oes unrhyw deithiau uniongyrchol a ddarperir gan ICWC ar hyn o bryd y byddech am eu gweld yn cael eu diogelu ar lefel gofynnol isaf?

Roedd y gyfradd ymateb i'r cwestiwn hwn yn 75%.

4

Nodwch eich blaenoriaeth ar gyfer newidiadau posibl yr hoffech eu gweld i wasanaethau trên ICWC gan restru eich 5 blaenoriaeth uchaf. (1 - uchaf, 5 - isaf).

- a. Cyflymu'r gwasanaeth i deithwyr teithiau pell er enghraifft trwy newid yr aros mewn gorsafoedd prin eu defnydd.
- b. Cyflwyno arosiadau newydd i ddarparu gwasanaethau i gyrchfannau nad ydynt ar hyn o bryd yn cael eu gwasanaethu yn uniongyrchol gan y rhyddfrait ICWC.
- c. Cyfnewid arosfan bresennol am un arall i gynyddu'r cyrchfannau nad ydynt yn cael eu gwasanaethu'n uniongyrchol gan y rhyddfrait ICWC.
- d. Addasu lefel y gwasanaeth (e.e. min nos, penwythnos) i gyfateb yn well â'r galw.
- e. Cefnogi datblygiad economaidd y trefi a'r dinasoedd a wasanaethir gan y rhyddfrait yn well er enghraifft trwy gynyddu/gostwng gwasanaethau ar gyfer teithio tymhorol (e.e. twristiaeth, gwyliau) neu ar gyfer digwyddiad pwysig (e.e. cyngerdd neu ddiwyddiad chwaraeon).
- f. Gwella cysylltiadau gyda gwasanaethau trên eraill fel rhan o deithiau pellach.
- g. Dal trenau yn ôl mewn gorsafoedd ar gyfer trenau sy'n cysylltu.

Roedd y gyfradd ymateb i'r cwestiwn hwn yn 86%.

5

Ar sail eich taith, a allwch chi nodi a ydych yn ystyried y dylid rhoi blaenoriaeth ar y naill opsiwn isod (pan fydd hynny'n bosibl rhwch y rhesymau am eich ateb)?

- a. Diogelu capasiti pellter maith ar drenau; neu
- b. Ddarparu'r dewis mwyaf o weithredwyr ar deithiau pellter byr

Roedd y gyfradd ymateb i'r cwestiwn hwn yn 79%.

6

Pa ddulliau ydych chi'n feddwl allai alluogi rhagor o bobl i deithio a gwella gallu'r rheilffordd i ddarparu ar gyfer cynnydd yn nifer y teithwyr?

Roedd y gyfradd ymateb i'r cwestiwn hwn yn 76%.





## C. Gwasanaethau trên

### Ein barn

Mae'r nifer o deithiau gan deithwyr ar yr ICWC wedi mwy na dyblu ers dechrau'r 2000oedd cynnar i dros 37m yn 2017, ac mae galw yn parhau i godi. Mae'r cynnydd oherwydd amrywiaeth o resymau yn cynnwys twf poblogaeth (yn arbennig o amgylch Milton Keynes, Swydd Northampton a Swydd Bedford), marchnata sylweddol ac effeithiol, twf mewn GDP a marchnad gynyddol o deithwyr yn defnyddio tocynnau o flaen llaw yn hytrach na thocynnau tu allan i oriau brig i deithio.

Cafwyd buddsoddiad mawr yn y rheilffyrdd gan y Llywodraeth a chyrff eraill, gyda Moderneiddio Llwybr Arfordir y Gorllewin, trenau newydd, ac amserlen newydd yn 2008 a gynyddodd amlder (yn benodol i Fanceinion a Birmingham) a lleihau amserau teithio. Fodd bynnag, mae yna gyfyngiadau ar gapasiti ar Brif Linell Arfordir y Gorllewin, gyda rhai achosion o orlenwi a galwadau a gapasiti atodol gan weithredwyr cludiant. Mae gweithredu'r rhydwraith rheilffyrdd ar y lefel hon yn cynyddu cyfleoedd ar gyfer oedi, sy'n gallu yn ei dro effeithio ar gysylltiadau a'i gwneud yn anoddach i amserlennu gwasanaethau trên atodol. Bydd HS2 yn trawsnewid teithiau trên yng nghoridor Arfordir y Gorllewin, yn darparu capasiti atodol sylweddol, gwella cysylltedd a lleihau amserau teithio yn rhan o system drafnidiaeth integredig yn yr 21ain ganrif.




## Eich ymateb

### Gwasanaethau Trên

Roedd cydnabyddiaeth gref gan ymatebwyr fod gwasanaethau trêrn presennol yn bodloni disgwyliadau yn gyffredinol. Roedd y mwyafrif eisiau cadw'r gwasanaethau presennol gyda chapasiti ar y llwybr wedi ei optimeiddio i gefnogi twf economaidd a'r farchnad hamdden a thwristiaeth fawr, ac i helpu delio â gorlenwi. Cafwyd awgrymiadau ar gyfer gwasanaethau uniongyrchol rhwng lleoliadau presennol (e.e. Lerpwl a Milton Keynes) ac i gyrchfannau newydd i wella cysylltedd (e.e. Bolton a Barrow in Furness).

Mae Ffigwr 6.5 isod yn dangos y llwybrau gwarchodedig yr oedd ymatebwyr wedi gofyn fwyaf amdanynt.

#### Ffigwr 6.5: Llwybrau gwarchodedig a geisiwyd



Canran o Ymatebion

## 6 C. Gwasanaethau trên

Mae gwella cysylltedd lleol a lleihau amserau teithio ill dau yn cael eu hystyried i fod yn bwysig ar draws rhanbarthau Lloegr, gydag ychydig mwy o bwys ar gysylltedd yng Ngogledd Lloegr. Yn Nghymru, roedd y pwysais ar gysylltedd yn llawer uwch tra bod rhanddeiliaid yn yr Alban yn dueddol o werthfawrogi amserau teithio llai – gyda nifer yn gweld hyn fel allweddol i wella cysylltedd ar draws y ffin.

### Prif Flaenoriaethau Ymatebwyr

22%



Eisiau gwell cysylltiadau gyda gwasanaethau trên eraill fel rhan o deithiau pellach

10%



Cyflymu'r gwasanaeth i deithwyr teithiau pell er enghraifft trwy newid yr aros mewn gorsafoedd prin eu defnydd

20%



Addasu lefel y gwasanaeth (e.e. min nos, penwythnos) i gyfateb yn well â'r galw

11%



Cyflwyno arosiadau newydd i ddarparu gwasanaethau i gyrchfannau nad ydynt ar hyn o bryd yn cael eu gwasanaethu yn uniongyrchol gan y rhyddfrait ICWC

17%



Gwella cefnogaeth i ddatblygiad economaidd trefi a dinasoedd a wasanaethir gan y rhyddfrait

5%



Cyfnwid arosfan bresennol am un arall i gynyddu'r cyrchfannau nad ydynt yn cael eu gwasanaethu'n uniongyrchol gan y rhyddfrait ICWC

15%



Dal trenau yn ôl mewn gorsafoedd ar gyfer trenau sy'n cysylltu

### Blaenoriaeth rhwng capasiti teithiau hir ac uchafswm dewis o ran gweithredwyr ar gyfer teithiau llai

Ar gyfer Cymru, yr Alban, Gogledd Lloegr a Llundain a De Ddwyrain Lloegr, roedd ymatebwyr yn blaenoriaethu diogelu capasiti pellter hir, gydag ymatebwyr Canolbarth Lloegr yn cefnogi mwy o ddewis o ran gweithredwyr ar gyfer pellter llai.

### Gwelliannau i alluogi a gwella teithio

Soniodd mwyafrif yr ymatebwyr am gapasiti ar drenau sy'n alinio'r brif flaenoriaeth ar gyfer C1 i deithwyr gael sedd ar y trên. Roedd yr awgrymiadau'n cynnwys cynyddu'r nifer o gerbydau i 11, cynyddu'r gyfradd o seddi dosbarth safonol o ddosbarth cyntaf ac adolygu prisiau tocynnau i ledaenu galw trwy gydol y dydd.



## Ein cynlluniau ar gyfer ICWC cyn lansio HS2

Mae'r Adran yn cydnabod awydd cryf ymatebwyr i [gadw'r gwasanaethau presennol ar yr ICWC](#) ac mae wedi seilio'r gwasanaethau trên isafswm ar gyfer y Bartneriaeth ar wasanaethau cyfredol.

Gan gydnabod dyheadau ymatebwyr i gael gwell gwasanaethau trên, rydym wedi [darparu hyblygrwydd i ymgeiswyr yn y fanyleb i'w galluogi i arloesi er mwyn cyflawni gwelliannau](#), yn hytrach na aros am HS2. Fe ddarperir hyblygrwydd trwy:

- Osod uchafswm amserau teithio ar lefelau sy'n galluogi ymgeiswyr i wella cysylltedd.
- Strwythur Gofyniad Gwasanaeth Trên (TSR) i alluogi ymgeiswyr i ddatblygu patrymau stopio newydd.

Bydd yn ofynnol i ymgeiswyr [gyflawni amserau teithio cyflym o ben i ben](#) a chael eu herio i weithio tuag at amserau taith blaenllaw uchelgeisiol wrth baratoi ar gyfer HS2.

Rydym hefyd yn herio ymgeiswyr i [ddelio ag achosion o orlenwi](#) a amlygwyd gan ymatebwyr (fel amserau brig, digwyddiadau arbennig) trwy eu hymagwedd i amserlennu, trenau a phrisiau.

Bydd ymgeiswyr yn cael eu [hysgogi i wasanaethu cyrchfannau newydd](#), ynghyd â gwella'r lefel bresennol o wasanaeth trên pan fydd yn gyfyngedig.

## Datblygu ein cynlluniau ar gyfer gwasanaethau trên cyflym iawn newydd

Bydd HS2 yn darparu ehangiad enfawr mewn cysylltedd, capasiti a gwasanaethau, gan gynrychioli dyblu yng nghapasiti Llundain Euston yn ystod oes y Bartneriaeth hon.

Bydd y trenau cyflym iawn newydd yn hyd at 400m o hyd, gyda bron i ddwbl y nifer o seddi â'r Pendolino hiraf (11 cerbyd) sy'n weithredol heddiw. Bydd HS2 hefyd yn chwarae rhan bwysig wrth wella mynediad at feysydd awr mawr a rhanbarthol ar draws y Deyrnas Unedig yn cynnwys Heathrow, Manceinion a Birmingham.

Bydd gan y WCP y rôl allweddol o ddatblygu opsiynau trên sy'n canolbwyntio ar y cwsmer ar gyfer y gwasanaethau cyflym iawn a chonfensiynol ar eu newydd wedd, gan neud y defnydd gorau o gyfleoedd a gyflwynir gan HS2 a'r capasiti sy'n cael ei ryddhau ar y rhwydwaith bresennol.

Fe fydd yna ymgynghoriad cyhoeddus ar yr opsiynau hyn yn ystod y WCP i alluogi'r cyhoedd, teithwyr, grwpiau defnydd, y diwydiant rheilffyrdd a rhanddeiliaid lleol a chymunedol i ddweud eu barn. Bydd hyn yn helpu llunio barn y Llywodraeth ar wasanaethau'r dyfodol ar ICWC a HS2.



## D. Cefnogi'r gymuned

7

Ar sail eich gwybodaeth am eich ardal/gorsaf leol, sut y gall y gweithredwr trên ICWC newydd:

- Wella gwasanaethau rheilffordd (gan gynnwys yr holl swyddogaethau cefnogi y bydd arnynt eu hangen) mewn modd sy'n parchu a helpu i gynnal yr amgylchedd? **52%**
- Gefnogi twf economaidd yr ardaloedd y mae'n eu gwasanaethu yn well? **54%**
- Wella ei gefnogaeth i'w weithlu a'i ddatblygu? **34%**
- Chwarae mwy o ran wrth gefnogi a gwella'r gymuned y mae'n ei gwasanaethu, treftadaeth y rheilffordd a helpu i ddatblygu gorsafoedd yn ganolfannau i'r gymuned? **43%**
- Wella'r gwasanaethau a gynigir i leihau gwahaniaethu a hybu cyfartaledd cyfle i bobl o grwpiau sy'n cael eu diogelu (mae'r rhain yn cynnwys oedran, anabledd, ailbennu rhywedd, priodas a phartneriaeth sifil, beichiogrwydd a mamolaeth, hil, crefydd a chred, rhyw a chyfeiriadedd rhywiol)? **36%**

Mae'r cyfraddau ymateb i'r cwestiynau hyn uchod.

## Ein barn

Mae'r Adran yn cydnabod yr ystod eang o swyddogaethau cymdeithasol ac economaidd bwysig mae'r ryddfrait bresennol yn cyflawni mewn ar draws Prydain Fawr a rôl allweddol y WCP wrth:

- Adeiladu a datblygu cysylltiadau gyda rhanddeiliaid lleol a chymunedau i ddatblygu eu gorsafoedd yn ganolfannau ar gyfer y gymuned, yn cefnogi datblygiad economaidd-gymdeithasol yn yr ardaloedd a wasanaethir.
- Datblygu gwasanaethau rheilffordd mewn modd gynaliadwy a bod yn ystyrlon o'r amgylchedd, effeithiau cymdeithasol ac economaidd; a chydaddoldeb a llesiant y gweithlu.

Rydym hefyd yn cydnabod pwysigrwydd hybu cydraddoldeb a chynhwysiant ar gyfer cwsmeriaid sy'n defnyddio a theithio ar y rheilffyrdd ac ar gyfer y gweithlu ar Arfordir y Gorllewin sy'n chwarae rhan allweddol wrth helpu rhedeg y gwasanaethau rheilffordd ar y llwybr hwn.

## Eich ymateb

- Amgylchedd** – Yr ymateb mwyaf cyffredin oedd i ddefnyddio trenau deufodd trydan yn hytrach na threnau diesel ar adrannau o'r llwybr sydd wedi eu trydaneiddio. Galwodd ymatebwyr hefyd am annog newid moddol o ffordd i reilffordd, megis gwella integreiddiad gyda dulliau trafndiaeth gyhoeddus eraill, gwella mynediad at orsafoedd, amserau teithio cyflymach a hyrwyddo manteision amgylcheddol y rheilffordd, ac i wella cyfleusterau beiciau ar drenau ac mewn gorsafoedd.
- Twf** – I ymgeiswyr weithio gydag awdurdodau trafndiaeth a busnesau lleol i ddeall anghenion trafndiaeth rhanbarthol (e.e. Amllder trenau a gwasanaethau newydd) ac i ehangu mynediad at feysydd cyflogaeth.
- Y Gweithlu** – Roedd gweledded ac argaeledd staff yn bwysig i ymatebwyr gyda diddordeb cryf mewn cadw'r lefelau presennol mewn gorsafoedd ac ar drenau, i staff gael mwy o awdurdod i ymateb i sefyllfoedd a'u gwobrwyo am berfformiad da.

I'r Bartneriaeth gyflogi pobl leol a chofleidio cynlluniau prentisiaeth. Gofynnodd rhai rhanddeiliaid o'r Alban i gyfran o'r prentisiaethau fod wedi eu lleoli yn yr Alban. I staff gael eu hannog i ddysgu ieithoedd eraill i gefnogi twristiaeth, yn arbennig i siarad Cymraeg yn ogystal â Saesneg yng Nghymru.

## Eich ymateb

- d. Cefnogi a gwella rheilffyrdd Cymunedol a threftadaeth a gorsafoedd fel canolfannau i'r gymuned – Roedd awgrymiadau ymatebwyr yn cynnwys: defnyddio llefydd segur mewn gorsafoedd ar gyfer prosiectau cymunedol lleol; arddangos celf cymunedol o amgylch yr orsaf; llefydd i fusnesau lleol ac allfeydd bwyd nad ydynt yn rhan o gadwyn a defnyddio cynnyrch lleol.
- e. Hybu cydraddoldeb – Roedd hygyrchedd yn thema fawr yn cwmpasu anghenion corfforol ac anghorfforol a gwella mynediad ar sianelau cyfathrebu. Roedd ymatebwyr eisiau:
- Mynediad priodol i bobl gyda llai o fudoledd mewn **gorsafoedd** gyda staff yn darparu cymorth i deithwyr gydag anableddau a phresenoldeb gweladwy i gwsmeriaid allu teimlo'n ddiogel.
  - Gwella mynediad ar gyfer defnyddwyr cadair olwyn wrth fyrddio/esgyn **trenau**, mwy o ymwybyddiaeth ymysg staff o deithwyr sydd angen cymorth; a mwy o gapasiti ar gyfer seddi ar drenau ar gyfer yr henoed a'r rhai gyda mudoledd cyfyngedig.
  - **System Cymorth Teithwyr** - cymorth ar draws teithiau gyda mwy nag un newid a cheisiadau wedi eu cysylltu i archeb wreiddiol y teithiwr.
  - **Gwybodaeth** - wedi e hanfon yn uniongyrchol i gwsmeriaid sydd wedi darparu manylion cyswllt ac yn y ffurf briodol ar gyfer rhai gyda nam ar eu golwg neu glyw, yn cynnwys laith Arwyddion Prydain.
  - **Mwy o gynrychiolaeth o fenywod a grwpiau lleiafrifol** yng ngweithlu'r WCP.

Gofynnodd rhai ymatebwyr am [staff dwyieithog a chyhoeddiadau dwyieithog](#) ar gyfer gorsafoedd yng Ngogledd Cymru a threnau yn teithio i/o Ogledd Cymru.

## Ein cynlluniau ar gyfer ICWC cyn lansio HS2

### a. Amgylchedd

Bydd ymgeiswyr yn cael eu herio i ddarparu gwasanaeth sy'n fwy amgylcheddol gynaliadwy. Bydd perfformiad amgylcheddol y fflyd trenau a gorsafoedd yn cael ei wella a'i fesur yn erbyn targedau perfformiad amgylcheddol uchelgeisiol. Fe anogir newid moddol gyda gwelliannau i fynediad a chyfnwidfeydd gyda dulliau eraill o drafnidiaeth mewn gorsafoedd, gyda ffocws penodol ar foddau cynaliadwy, yn cynnwys: cyfnwidfeydd bws/rheilffordd; darpariaeth parcio a mynediad a storfeydd beics.

### b. Twf a d. Cefnogi a gwella Cymuned a Threftadaeth Rheilffyrdd a gorsafoedd fel canolfannau i'r gymuned

Bydd y WCP yn sefydlu partneriaethau a datblygu strategaethau marchnata ar y cyd gyda busnesau lleol, diwydiannau twristiaeth a rheilffyrdd treftadaeth i hyrwyddo teithiau i'r rhanbarthau i gefnogi datblygiad economaidd cymunedau lleol.

Bydd y Bartneriaeth yn datblygu **Cynllun Datblygu Cymdeithasol a Masnachol** i nodi a datblygu cynlluniau i ailwampio gofod segur mewn gorsafoedd i'r gymuned ddefnyddio neu i ddibenion masnachol.

Byddant yn ymgynghori gyda chymunedau a rhanddeiliaid i gyflawni gwelliannau anfasnachol i gyfleusterau a gwasanaethau gorsafoedd lleol trwy gynlluniau **Gwelliant Cymunedol a Chwsmeriaid (CCI)** newydd.





## D. Cefnogi'r gymuned

### c. Y Gweithlu

Bydd ymgeiswyr yn arddangos sut: fydd eu hamserlenni arfaethedig a gwasanaethau teithwyr ar gyfer y Bartneriaeth yn cael eu rhedeg gyda'r nifer o gyflogeion a restrir yn eu cynnig. Bydd y Bartneriaeth yn denu unigolion o grwpiau sydd heb gynrychiolaeth ddigonol yn y diwydiant rheilffyrdd i'w gweithlu, yn cynnwys trwy brentisiaethau; bydd yn hyrwyddo iechyd a lles ymysg ei gyflogeion ac yn buddsoddi yn natblygiad sgiliau a galluoedd ei gyflogeion i gefnogi cyflawniad gwasanaeth o ansawdd uchel.

### e. Hybu cydraddoldeb

Mae'n allweddol fod y Bartneriaeth yn darparu profiad o ansawdd uchel ar gyfer yr holl deithwyr yn cynnwys rhai gyda namau corfforol, meddyliol, synhwyrdd neu wybyddol, er mwyn iddynt allu teithio ar Arfordir y Gorllewin yn hyderus ac yn gyfforddus.

Bydd yn ofynnol i'r Bartneriaeth: ddarparu presenoldeb gweladwy a rhagweithiol gerbron cwsmeriaid mewn gorsafoedd ac ar drenau; ddatblygu **Strategaeth Ymgysylltu â Chwsmeriaid a Rhanddeiliaid** i nodi cyfleoedd i wella gwasanaethau a chyfleusterau i gwsmeriaid; gwella hygyrchedd gorsafoedd a chyfleusterau gorsaf, a sefydlu Panel Hygyrchedd i hysbysu gwelliannau pellach yn ystod cyfnod y Bartneriaeth. Bydd ymgeiswyr yn cael eu herio i ddatblygu cynlluniau a fydd yn cynyddu hygyrchedd rheilffyrdd i grwpiau bregus, cymunedau gwledig a'r rhai gyda mynediad cyfyngedig i gludiant preifat.

Bydd y Bartneriaeth yn gwella diogelwch a'r dehongliad o ddiogeled mewn gorsafoedd ac ar drenau trwy weithio gyda rhanddeiliaid (yn arbennig Heddlu Trafnidiaeth Prydain) a thrwy ddefnyddio technolegau arloesol neu brawf i hyrwyddo amgylchedd diogel i bawb.

Bydd y Bartneriaeth yn hyrwyddo amrywiaeth a chydaddoldeb ar draws y gweithlu ac yn cefnogi targedau Prentisiaeth y Llywodraeth yn cynnwys y nifer o ymgeiswyr BAME gan sicrhau bod 2.5% o gyfanswm cyflogeion y Bartneriaeth yn brentisiaethau.

### Datblygu ein cynlluniau cynaliadwyedd yn dilyn lansio HS2

Bydd y Bartneriaeth yn parhau i gefnogi cymunedau wedi lansio gwasanaethau HS2 a bydd targedau amgylcheddol uchelgeisiol i'w cyflawni. Bydd ymwybyddiaeth amgylcheddol a chyfrifoldeb cymdeithasol yn parhau i fod wedi ei fewnosod trwy gydol y Bartneriaeth a'i waith gyda chwsmeriaid, cyflogeion a'r gymuned leol.

Bydd cynaliadwyedd amgylcheddol yn cael ei fewnosod yng nghynllun a rhedeg HS2. Bydd cynlluniau datblygu cynaliadwy newydd yn cael eu llunio gan y Bartneriaeth i sicrhau bod y gwasanaethau HS2 newydd yn cael eu gweithredu mewn modd amgylcheddol gynaliadwy, yn cefnogi HS2 Cyf i gyflawni ei rwymedigaethau amgylcheddol. Bydd y rhain yn parhau i annog newid moddol o deithiau car ac o wasanaethau hedfan 'r HS2 newydd a'r gwasanaethau trên confensiynol ar eu newydd wedd.

Bydd y fflyd HS2 newydd yn cael ei gynllunio i a'i fesur yn erbyn y safonau amgylcheddol diweddaraf.

Yn ystod y cyfnod adeiladu, bydd HS2 yn creu 25,000 o swyddi (yn cynnwys 2,000 prentisiaeth) ac yn helpu hyfforddi cenhedlaeth newydd o weithwyr medrus, yn cynnwys trwy'r Coleg Cenedlaethol ar gyfer Rheilffyrdd Cyflym Iawn. Bydd dros 3,000 o swyddi parhaol yn cael eu creu i weithredu a chynnal rheilffordd a fflyd trenau HS2, a bydd 70% o'r swyddi a gefnogir gan HS2 tu allan i Lundain.

**8** Rhestrwch, os gwelwch yn dda, yn nhrefn blaenoriaeth, y pum cyfleuster y byddech yn dymuno eu gweld yn cael eu gwella neu eu cyflwyno yn yr orsaf/y gorsafoedd a wasanaethir gan Ryddfrait ICWC: a) yr ydych yn eu defnyddio; neu; b) fel rhywun nad yw'n eu defnyddio fyddai yn eich annog i ddefnyddio'r rhwydwaith rheilffyrdd. Rhowch enw'r orsaf/ y gorsafoedd a pham eich bod yn meddwl bod angen y gwelliannau yma.

Roedd y gyfradd ymateb i'r cwestiwn hwn yn 74%.

## Ein barn

Nododd yr ymgynghoriad fod gorsafoedd trên yn rhan allweddol o'r rhwydwaith rheilffyrdd a'r cymunedau maent yn eu gwasanaethu. Amlinellodd y buddsoddiadau arwyddocaol sydd eisoes wedi digwydd mewn gorsafoedd ar Arfordir y Gorllewin megis Birmingham New Street a Manceinion Piccadilly.

Rydym yn cydnabod fod cwmpas ar gyfer gwaith pellach mewn gorsafoedd bach a mawr i wella'r amgylchedd, i gynyddu hygyrchedd, i wella'r cynnig masnachol ac ar gyfer integreiddiad pellach gyda'r cymunedau a wasanaethir. Rydym eisieu deall pa gyfleusterau atodol neu well fyddai'n gwneud y gwahaniaeth mwyaf i chi mewn gorsafoedd bach a mawr.

## Eich ymateb

Yn gyffredinol, roedd ymatebwyr eisieu i gyfleusterau fod yn gyson ar draws holl orsafoedd Arfordir y Gorllewin.

### Gwybodaeth/arwyddion

Dylai arwyddion gorsafoedd fod yn glir a hawdd i'w dilyn, dylid gwella sgriniau arddangos (e.e. Dangos lleoliad seddi sydd ar gael ar drenau). Dylid darparu cyhoeddiadau am amhariad i wasanaeth mewn print, eu gwneud ar lafar a bod yn glir.

### Seddi mewn gorsafoedd

Eu cynyddu ac arwyddion clir ar eu cyfer i bobl gyda chyfyngiadau mudoledd ac o fewn golwg hawdd i arddangosiadau manylion trenau.

## Ardaloedd cysgodol

Yn ddefnyddol ar hyd y plattform ar bob plattform i atal teithwyr rhag casglu mewn torf yn ystod tywydd garw.

### Cyfleusterau

Toiledau ar bob plattform i ddarparu ar gyfer y rhai a chyfyngiadau mudoledd, ar gael yn ystod oriau gweithredol yr orsaf ac am ddim tu hwnt i'r giatiau tocynnau. Cynyddu cyfleusterau masnachol fel swyddfeydd post, archfarchnadoedd bach a pheiriannau codi arian. Cyfleusterau bagiau coll mewn gorsafoedd mwy.

### Hygyrchedd/cyfnwifeydd

Pob gorsaf yn rhydd o risiau, lifftiau wedi eu cynnal a gwasanaethu'n rheolaidd. Gwella cyfnwifeydd gyda moddau trafndiaeth eraill a gwella cyfathrebu am gysylltiadau trafndiaeth lleol ac atyniadau ar hyd y ffordd.

### Parcio ceir

Mwy o lefydd parcio mewn gorsafoedd gan leihau taliadau. Tocynnau trên a pharcio ar y cyd a thechnolegau arloesol i alluogi cwsmeriaid i wirio'r nifer o lefydd sydd ar gael cyn teithio i'r orsaf.

### Gwella gweledd staff

Yn arbennig yn ystod cyfnodau a amhariad.



## E. Gorsafoedd

### Ein cynlluniau ar gyfer ICWC cyn lansio HS2

Mae ein cynigion yn ceisio cyflawni amrywiaeth o welliannau i amgylcheddau a chyfleusterau gorsafoedd, yn cynnwys gwella hygyrchedd cyfleusterau gorsafoedd fe bod pob teithiwr yn cynnwys rhai gyda namau corfforol, meddyliol, synhwyraidd neu wybyddol, yn gallu defnyddio cyfleusterau'r oraf yn hyderus a chyfforddus.

Bydd gofyn i ymgeiswyr ddatblygu cynlluniau i wneud gorsafoedd yn fwy dymunol i'w defnyddio ac i wella cyfleusterau'r orsaf i ddarparu profiad o ansawdd uchel i deithwyr er mwyn bodloni'r targedau gorsaf newydd yn Arolygon Teithwyr y Rheilffyrdd Cenedlaethol. Bydd hyn yn cynnwys datblygu cynlluniau i wella mynediad, cyfeirio a chyfnewid gyda moddau eraill, yn arbennig moddau cynaliadwy, mewn gorsafoedd.

Rydym yn cydnabod y rôl bwysig sydd gan orsafoedd yn y cymunedau maent yn eu gwasanaethu a [bydd yn ofynnol i ymgeiswyr sefydlu sut fyddant yn hyrwyddo cysylltiadau gyda a darparu cyfleoedd ar gyfer cymunedau mewn gorsafoedd](#) tra'n gwella darpariaethau masnachu ac arlwyyo i wneud gorsafoedd yn gyrchfannau ynddynt eu hunain.

Trafodir gwelliannau i wybodaeth am deithiau dan Isadran 6B gwybodaeth i Deithwyr.

Bydd ymgeiswyr yn derbyn credydau ychwanegol ar gyfer mentrau i wella'r broses o fyrddio yn Llundain Euston.

### Datblygu ein cynlluniau ar gyfer gwasanaethau HS2

Bydd prosiectau Cam 1 a 2a HS2 yn adeiladu pedair goraf newydd:

- Dwy yn Llundain; yn Euston ac Old Oak Common.
- Dwy ym Mirmingham; yn Birmingham Curzon Street a goraf Gyfnewid Birmingham, ger Solihull.

Bydd y gorsafoedd newydd hyn yn gyfle gwych ar gyfer ymagwedd newydd. Bydd y gorsafoedd HS2 yn herio'r dyluniad confensiynol a ffordd o wneud pethau mewn gorsafoedd traddodiadol. Bydd ganddynt gyfleusterau o ansawdd uchel iawn, integreiddiad da gyda dulliau trafndiaeth eraill ac yn gweithredu fel canolfannau rhanbarthol.

Bydd y gorsafoedd newydd yn manteisio ar y technolegau diweddaraf i wella cynnig yr orsaf yn enbyd, yn cynyddu hygyrchedd, gwella cyfeirio, hyrwyddo diogelwch a diogeledd a hyrwyddo'r cyfleusterau gorsaf o ansawdd uchel. Bydd y WCP yn cynllunio'r cyfleusterau gerbron y cyhoedd a hefyd yn sicrhau bod cyfleusterau mewn gorsafoedd rhwng dinasoedd presennol wedi eu gwella.

Bydd y WCP hefyd yn gweithio'n agos gyda HS2 Cyf, DfT, Yr Adran dros Gymunedau a Llywodraeth Leol (DCLG) ac awdurdodau lleol i sicrhau y gall y gorsafoedd newydd hyn gefnogi twf lleol trwy ddatblygiadau cyflenwol. Mae creu'r gorsafoedd newydd hyn yn cynnig cyfleoedd sylweddol ar gyfer datblygu ac adfywio yn ac o amgylch safleoedd yr orsaf, gan gefnogi swyddi a thai. Yn olaf, bydd ymagwedd trafndiaeth integredig yn Sicrhau bod y gwasanaethau HS2 newydd yn rhan o system drafndiaeth genedlaethol gydlynol, yn dangos y gall Prydain Fawr arwain y blaen mewn gwasanaeth cludiant.



## F. Gwneud y rheilffordd yn fwy hygyrch i bawb



9

Wrth feddwl am y teithiau a wnewch neu yr ydych wedi eu gwneud ar ICWC, neu ar daith y gallech ei gwneud ar yr ICWC ond eich bod wedi penderfynu defnyddio dull teithio arall yn hytrach na hynny:

- Pa newidiadau penodol y gellid eu gwneud i wneud y rheilffordd yn haws i gael mynediad iddi ac felly yn fwy deniadol i'w defnyddio?
- Pam eich bod yn meddwl y gallai'r newidiadau hyn helpu?

Roedd y gyfradd ymateb i'r cwestiwn hwn yn 55%.

### Ein barn

Blaenoriaeth allweddol i'r Adran yw i ddarparu rheilffordd ar gyfer cwsmeriaid sy'n fwy hygyrch i holl aelodau cymdeithas ar draws profiad y daith, mae hyn yn cynnwys cynllunio a gwneud tai o fan cychwyn i gyrraedd eich cyrchfan derfynol.



## 6 F. Gwneud y rheilffordd yn fwy hygyrch i bawb


### Eich ymateb

Mae Ffigur 6.6 yn arddangos yr amrywiaeth o themâu a nodwyd gan ymatebwyr. Yr awgrym mwyaf cyffredin ar gyfer gwneud y rheilffyrdd yn fwy deniadol oedd o ran **tocynnau** (23%). Roedd sylwadau yn cynnwys lleihau prisiau tocynnau, symleiddio'r strwythur prisiau, defnyddio prisio i daclo gorlenwi cyn ac wedi cyfnodau brig ac ymestyn y cynlluniau cardiau rheilffordd i grwpiau.

Yn dilyn hyn yn agos oedd **cyfleusterau gorsafoedd** (19%), gydag oddeutu hanner y sylwadau am feysydd parcio gorsafoedd yn gofyn am fwy o lefydd parcio a lleihau taliadau parcio.

**Gwella integreiddiad** (14%), yn arbennig gyda ffocws ar fathau eraill o drafnidiaeth fel gweithio gyda gweithredwyr bysus i drefnu i fysus stopio yn agos at yr fynedfeydd gorsafoedd ac alinio amserau stopio gyda gwasanaethau trê, yn arbennig gyda'r nos mewn gorsafoedd gwledig ble gallai gwasanaethau bws derfynu am y diwrnod cyn y trê olaf, gan adael teithwyr heb unrhyw ddewisiadau trafndiaeth gyhoeddus amgen.

Ffigur 6.6: Themâu ymateb i wella mynediad at y rheilffyrdd



## F. Gwneud y rheilffordd yn fwy hygyrch i bawb



### Ein cynlluniau ar gyfer ICWC cyn lansio HS2

Codwyd nifer o'r pwyntiau a nodwyd yn ymatebion yr ymgynghoriad mewn ymateb i gwestiynau blaenorol am bwysigrwydd hygyrchedd i'r cyhoedd a rhanddeiliaid. Rydym eisiau i'r Bartneriaeth ddarparu profiad deniadol o ansawdd uchel i'r holl deithwyr.

#### Prisoedd teithio

Bydd yn ofynnol i'r Bartneriaeth wneud prisiau trên yn haws i'w deall ac yn fwy addas i anghenion cwsmeriaid. Ceir rhagor o fanylion am beth ydym wedi gofyn "r ymgeiswyr ddarparu dan Is-adran 6G.

#### Cymunedau

Rydym wedi gofyn i'r ymgeiswyr ddatblygu cynigion i wella cysylltiadau gyda'r cymunedau a wasanaethir ac i gynyddu hygyrchedd y WCP i grwpiau bregus, yn cynnwys y rhai gyda mynediad cyfyngedig i drafnidiaeth breifat, cymunedau gwledig a'r rhai sy'n chwilio am waith neu wedi dychwelyd yn ddiweddar.

#### Hygyrchedd

Bydd ymgeiswyr yn datblygu cynlluniau i wella hygyrchedd cyfleusterau gorsafoedd er mwyn i'r holl deithwyr, yn cynnwys y rhai gyda namau corfforol, meddyliol, synhwyaidd neu wybyddol, allu defnyddio cyfleusterau'r orsaf, canfod eu trên a chyfnewid gyda dulliau trafndiaeth eraill yn effeithiol. Byddant yn cael eu hannog i ddatblygu cynigion a fyddai'n galluogi teithwyr o'r fath i ddefnyddio gorsafoedd a chyfleusterau gorsafoedd yn hyderus ac annibynnol, os byddant eisiau gwneud hynny.

Bydd y Bartneriaeth yn cyflwyno Panel Hygyrchedd i nodi a gweithredu cyfleoedd pellach i gynyddu hygyrchedd y WCP yn ystod oes y Bartneriaeth.

#### Gwybodaeth

Byddant yn gwella cyfathrebu, rhan allweddol o bob taith ar y rheilffyrdd, yn defnyddio technoleg i ddarparu gwybodaeth amser real ac integredig am y daith sy'n gywir, amserol a chllir i gwsmeriaid er mwyn Sicrhau bod eu profiad o'r rheilffyrdd yn aml a didrafferth.

#### Gwasanaethau trên

Mae yna gyfleoedd cyfyngedig i wella amlder gwasanaethau, fodd bynnag, bydd ymgeiswyr yn cael eu hysgogi i ddarparu cyrchfannau newydd, ynghyd â gwella'r lefel bresennol o wasanaeth trên pan fydd yn gyfyngedig.

### Datblygu ein cynlluniau ar gyfer gwasanaethau HS2

Mae'n bwysig i ni fod dyluniad y cynnig i deithwyr wedi cyflwyno HS2 yn ystyried yr holl faterion hyn, yn cynnwys cydraddoldeb a hygyrchedd. I'r perwyl hwn, bydd yn ofynnol i WCP gynnwys y Panel Hygyrchedd yng ngwaith cynllunio'r holl gyfleusterau i gwsmeriaid.





## G. Prisiau a thocynnau

10

Beth ydych chi'n ei feddwl all gweithredwr trenau ICWC yn y dyfodol ei wneud i foderneiddio a gwella profiad y cwsmeriaid o ran tocynnau? Rhowch eich barn ar yr elfennau neu rannau o'r gwasanaeth y dylai gweithredwr y trên eu hystyried wrth ddatblygu eu cynlluniau tocynnau a gwerthu tocynnau.

Roedd y gyfradd ymateb i'r cwestiwn hwn yn 74%.

### Ein barn

Rydym eisiau i gwsmeriaid deimlo eu bod wedi eu gwerthfawrogi ac yn cael eu trin yn deg. Rydym yn deall fod dryswch o ran prisiau gyda chwsmeriaid weithiau'n teimlo nad ydynt wedi gael y pris gorau ar gyfer eu taith. Esboniodd y ddogfen ymgynghori ein disgwyliadau ar gyfer y gweithredwr yn y dyfodol, gan gynnwys symleiddio gwybodaeth am brisiau, gwella trefniadau iawndal, gwneud mwy o ddefnydd o dechnegol i bobl dalu am deithiau, cynyddu defnydd o docynnau clyfar a digidol a phrofiad llyfn pan fydd teithiau yn rhyngweithio gyda gwasanaethau sy'n cael eu rhedeg gan weithredwyr eraill.

G. Prisiau a thocynnau 

## Eich ymateb

Cafodd ymatebion i'r cwestiwn hwn eu grwpio i'r saith thema canlynol:

## Prisiau

Cost tocynnau, pryderon am dryloywder y strwythur prisio e.e. anhawster dod o hyd i'r tocynnau rhataf.

287

## Math o docyn

Tocyn clyfar, symudol, papur ac ati.

268

## Proses archebu

Pob rhan o'r system archebu e.e. Hwylustod prynu tocynnau ar-lei, archebu sedd, archebu lle i feic.

113

## Cynlluniau tocynnau

Cardiau rheilffordd, tocynnau grŵp, tocynnau crwydro.

72

## Peiriannau tocynnau

Gwelliannau i hygyrchedd/hwylustod.

70

## Swyddfa docynnau

Fel ymestyn oriau agor.

49

## Rhwystrau

Gofyn am fwy/llai o rwystrau a sylwadau ar lefelau ciwio wrth y rhwystrau.

27

Roedd y sylwadau mwyaf cyffredin ynghylch **cymhlethdod y strwythur prisiau**. Gofynnodd ymatebwyr am lai o fathau o docynnau gyda llai o gyfyngiadau ac iddi fod yn haws dod o hyd i'r prisiau rhataf ar wefannau ac wrth ddefnyddio peiriannau tocynnau. Gofynnodd dros 400 o ymatebwyr ymgyrchu am docynnau tymor rhan amser i gefnogi cymudwyr rhan amser.

Roedd ceisiadau am **docynnau clyfar a thaliadau digyffwrdd** yn gyffredin. Roedd rhai yn gofyn am gadw tocynnau papur i roi dewis i deithwyr sy'n ffafrio opsiynau llai technegol.

Yn ogystal â sylwadau cyffredinol i leihau prisiau tocynnau, trafododd nifer o ymatebwyr y gwahaniaeth rhwng prisiau brig ac all-frig ac effaith hyn ar orlenwi ar rai gwasanaethau. Roedd awgrymiadau i drechu hyn yn cynnwys prisiau cyfnodol yn yr amserau yn union cyn ac wedi'r amser brig yn y bore a gyda'r nos a dewisiadau tocynnau brig is.

Roedd ymatebwyr eisïau i'r gweithredwr weithio gydag awdurdodau a gweithredwyr trafndiaeth rhanbarthol i sicrhau **integreiddiad** gyda'u systemau tocynnau unigol, gan roi seilwaith priodol ar waith i hwyluso datblygiadau.

Roedd mwyafrif y datganiadau parthed prosesau archebu yn ymwneud â gwella cadw seddi ar-lein ac ar y trên (a darparu prisiau tocynnau cyson ar draws yr holl ffrydiau gwerthu. (e.e. ar-lein, mewn swyddfeydd tocynnau, o beiriant tocynnau).

Roedd ymatebwyr gydag anableddeu eisïau gallu archebu seddi, trwy'r un sianeli a theithwyr nad ydynt yn anabl. Roedd cefnogaeth hefyd i gysylltu archebu tocyn gyda cheisiadau am gymorth i deithio (e.e. PassengerAssist) yn cynnwys ar gyfer teithiau ble mae angen newid fwy nag unwaith.

## 6 G. Prisiau a thocynnau

### Ein cynlluniau ar gyfer ICWC cyn lansio HS2

Mae'r Adran yn deall nad yw teithwyr eisiau i'w cwsmeriaeth gael ei gymryd yn ganiataol ac eisiau iddynt deimlo fod ganddynt y pris gorau ar gyfer eu taith ar y rheilffordd. Bydd angen i ymgeiswyr feddwl sut y gall technoleg newydd wneud y broses hon yn fwy syml o'r cychwyn.

#### Prisiau haws, symlach

Bydd yn ofynnol ymgeiswyr wneud prisiau trên yn haws i'w deall ac yn fwy addas i anghenion teithwyr. Bydd hyn yn cynnwys cynnyrch sy'n cynnig gwell gwerth am arian i gwsmeriaid sy'n teithio'n rheolaidd – ond nid pump niwrnod yr wythnos – yn hytrach na phrynu nifer o deithiau dychwelyd (megis system carnet).

Rhaid i wybodaeth ar fathau o docynnau a chyfyngiadau fod yn gyson ac yn hygyrch, gan alluogi teithwyr i ddewis y tocyn mwyaf priodol ar gyfer eu taith. Mae ymgeiswyr yn cael eu hannog i gynnig gwarant pris i gwsmeriaid y byddant yn cael cynnig yr un pris ar draws pob dull masnachu.

#### Tocynnau modern

Bydd ymgeiswyr yn uchelgeisiol yn eu targedau i weithredu systemau tocynnau modern a fydd yn cynnig dulliau gwell, mwy deniadol i deithwyr o brynu tocynnau. Bydd hyn yn cynnwys pob tocyn tymor i fod ar gael ar-lein ac mewn swyddfeydd tocynnau trwy gynlluniau tocynnau clyfar o fewn 8 mis ac o leiaf hanner teithiau teithwyr ar y llwybr WCP i'w cwblhau yn defnyddio opsiynau tocynnau clyfar o fewn 15 mis i ddyddiad cychwyn y WCP.

#### Gwella gwerthu tocynnau

Bydd ymgeiswyr yn darparu safon ansawdd uchel o werthiant tocynnau, gan roi mynediad helaeth a hawdd i gwsmeriaid i'r detholiad llawn o brisiau sy'n bodloni eu hanghenion, yn cynnwys cwsmeriaid heb fynediad at dechnoleg ac i fabwysiadu Canllawiau Dylunio i wella'r profiad cwsmer mewn peiriannau gwerthu tocynnau.



## Datblygu ein cynlluniau prisiau a thocynnau yn dilyn lansio HS2

Bydd y WCP yn gyfrifol am ddatblygu strategaeth prisiau ar gyfer gwasanaethau HS2 sy'n gweithio i deithwyr a threthdalwyr, o ran annog defnydd o'r gwasanaethau cyflym iawn newydd, lledaenu'r manteision yn gyfartal a chyflawni'r elw ariannol arfaethedig. Rydym yn annog ymgeiswyr i ddatblygu dulliau ffres ac arloesol sy'n osgoi'r anomaleddau y system brisiau bresennol ac, os oes angen, byddwn yn ystyried newidiadau i'r rheoliadau prisiau presennol a fydd yn sicrhau gwell deilliannau i deithwyr.

Bydd angen i'r strategaeth prisiau ar gyfer gwasanaethau HS2 weithio ar y cyd â'r system prisiau ar gyfer gwasanaethau confensiynol. Gallai hyn nodi'r angen am newidiadau ehangach i'r system brisiau neu i reoleiddio prisiau.

Bydd cynigion gwerthu a thocynnau ar gyfer gwasanaethau HS2 hefyd yn cael eu datblygu yn unol ag ymgysylltu llawn gan y gymuned cwsmeriaid.

Mae'n debygol y bydd HS2 yn cyflwyno technolegau newydd a ellir hefyd eu cyflwyno ar draws y gwasanaethau ICWC yn ystod oes y Bartneriaeth. Bydd y Bartneriaeth yn edrych ar sut gall y dechnoleg newydd wneud teithio yn fwy syml a gwell gwerth i deithwyr cyn dechrau'r gwasanaethau HS2.

Mae angen i'r system docynnau gael ei hintegreiddio gyda rhannau eraill o'r system drafnidiaeth, yn cynnwys, ond nid wedi ei gyfyngu i reilffyrdd, i wneud teithio mor syml â phosibl. Byddwn yn disgwyl i ymgeiswyr wneud y gorau o dechnoleg, yn cynnwys cyflawni cynlluniau uchelgeisiol i gefnogi datblygiad y rhaglen rheilffyrdd digidol ar y cyd â Network Rail.



## H. Meysydd eraill na drafodwyd yng nghwestiynau'r ymgynghoriad

11

Os oes unrhyw feysydd ychwanegol yr ydych yn meddwl eu bod yn bwysig i ni ystyried nad ydynt wedi cael eu trin yn yr ymgynghoriad hwn, esboniwch nhw yma os gwelwch yn dda?

Roedd y gyfradd ymateb i'r cwestiwn hwn yn 56%.

### Ein barn

Roeddem eisiau rhoi cyfle i'r cyhoedd a rhanddeiliaid godi unrhyw bwyntiau atodol nad oedd wedi cael sylw eisoes yn yr ymgynghoriad.

### Eich ymateb

Manteisiodd rhai ymatebwyr ar hyn i ailadrodd pwyntiau a wnaethpwyd yn gynharach yn yr ymateb i'r ymgynghoriad.

Roedd HS2 yn thema fawr, gyda chwestiynau am reoli amhariadau yn ystod y gwaith adeiladu, cysylltedd rhwng gwasanaethau cyflym iawn a chonfensiynol yn y dyfodol, ac os dylai hyd y rhyddfrait ICWC ymestyn tu hwnt i gychwyn gweithrediad HS2.

Roedd yna hefyd thema gryf o ran integreiddiad, yn gofyn i'r gweithredwr newydd ystyried cynlluniau a mentrau lleol yn rhan o'u cynllunio eu hunain ar gyfer gwasanaethau ICWC.

### Ein hymateb

Fe wnaethom gydnabod y pryderon a godwyd gan ymatebwyr a'r manteision arwyddocaol o ddod a gweithrediad y gwasanaethau ICWC a HS2 ynghyd. Yn mis Tachwedd 2016, cyhoeddodd y Llywodraeth y byddent yn cael eu cyfuno, gan greu'r WCP newydd.

Bydd y WCP yn darparu profiad cwsmer o safon byd i deithwyr, gan eu blaenoriaethu a'u rhoi gyntaf ym mhob penderfyniad, ar wasanaethau ICWC confensiynol ac wrth gynllunio ar gyfer y dyfodol. Byddant yn darparu ymateb cydlynol ac integredig i'r heriau wrth baratoi ar gyfer lansio HS2.

Bydd gofyn i ymgeiswyr sefydlu eu cynlluniau i weithio gyda Network Rail a HS2 Cyf i leihau effeithiau gwaith adeiladu ar deithwyr, yn cynnwys sut fyddant yn Sicrhau bod teithwyr yn derbyn gwybodaeth gyson a chywir.

Rydym wedi bod yn gwbl glir ein bod yn disgwyl i'r gweithredwr WCP newydd weithio ar y cyd â'r Llywodraeth, diwydiant a rhanddeiliaid er lles teithwyr a chymunedau lleol.



7

Atodiadau

## Ffigurau a thablau

### Ffigurau

Ffigwr 3.1: Llwybr rhyddfrait ICWC	8
Ffigwr 3.2: Map llwybr HS2	9
Ffigwr 4.1: Amcanion y WCP	15
Ffigwr 6.1: Map o ymatebwyr yr ymgynghoriad	26
Ffigwr 6.2: Dull dewisol o gyfathrebu i gynllunio taith pen i ben	32
Ffigwr 6.3: Gwybod o flaen llaw am amhariadau hysbys	32
Ffigwr 6.4: Dulliau cyfathrebu yn ystod amhariadau heb eu cynllunio	32
Ffigwr 6.5: Llwybrau gwarchoddedig a geisiwyd	37
Ffigwr 6.6: Themâu ymateb i wella mynediad at y rheilffyrdd	46

### Tablau

Tabl 6.1: Dadansoddiad o ymatebion i'r ymgynghoriad	24
Tabl 6.2: Math o ymateb	24



# Rhestr o ymatebwyr rhanddeiliaid

## Awdurdodau Lleol / Gweinyddiaethau Datganoledig / Partneriaethau Menter Lleol / Cyngorau Tref/Cymuned

Awdurdod Cyfunol Gorllewin Canolbarth Lloegr	Cyngor Sir Cumbria
Bwrdd Datblygu Gorllewin Swydd Gaer a Chael ac Ellesmere Port	Cyngor Sir Gogledd Swydd Efrog
Consortiwm Trafnidiaeth Gyhoeddus Cymdeithas Llywodraeth Leol	Cyngor Sir Swydd Gaerhirfryn
Corff Trafnidiaeth Lleol Swydd Gaer a Warrington (LTB)	Cyngor Sir Swydd Gaerlwr
Cyngor Blackpool	Cyngor Sir Swydd Gaerwrangon
Cyngor Bolton	Cyngor Sir Swydd Hertford
Cyngor Bwrdeistref Copeland	Cyngor Sir Swydd Northampton
Cyngor Bwrdeistref Halton	Cyngor Sir Swydd Stafford
Cyngor Bwrdeistref Metropolitan Dudley	Cyngor Sir Swydd Warwick
Cyngor Bwrdeistref Metropolitan Sandwell	Cyngor Telford Wrekin
Cyngor Bwrdeistref Metropolitan Solihull	Cyngor Tref Crewe
Cyngor Bwrdeistref Metropolitan Stockport	Cyngor Tref Kendal
Cyngor Bwrdeistref Nuneaton a Bedworth	Cyngor Tref Neston
Cyngor Bwrdeistref Sirol Conwy	Cyngor Tref Windermere
Cyngor Bwrdeistref Wreccsam	Cyngor Tref y Fflint
Cyngor Cymuned Coedpoeth	Llywodraeth Cymru
Cyngor Dinas Birmingham	Ombwdsmon Llywodraeth Leol
Cyngor Dinas Caeredin	Partneriaeth Menter Lleol Cumbria (LEP)
Cyngor Dinas Caerhirfryn	Partneriaeth Menter Swydd Gaerhirfryn
Cyngor Dinas Carlisle	Partneriaeth Trafnidiaeth De Orllewin yr Alban
Cyngor Dinas Coventry	Partneriaeth Trafnidiaeth Strathclyde (SPT)
Cyngor Dinas Glasgow	Rail North Ltd
Cyngor Dinas Salford	Rhanbarth Dinas Lerpwl
Cyngor Dosbarth Eden	Transport for Greater Manchester
Cyngor Dwyrain Swydd Gaer	Transport for London
Cyngor Gorllewin Swydd Gaer a Chaer	Transport Scotland
Cyngor Milton Keynes	Ward Dwyrain Clydesdale, cyngor De Lanarkshire
	West Midlands Rail Limited
	Y Bartneriaeth Trafnidiaeth Rhanbarthol Statudol ar gyfer De Orllewin yr Alban (SEStran)



## Rhestr o ymatebwyr rhanddeiliaid

### Cynrychiolwyr teithwyr / Ymgyrchwyr Rheilffyrdd

Bring Back British Rail	Marches Strategic Rail Group
Campaign For Rail	Marston Vale Community Rail Partnership
Community Rail Cumbria	Mid Cheshire Rail Users Association
Community Rail Lancashire	Milton Keynes Transport Partnership Public Transport Group
Copeland Rail Users Group	Mobility and Access Committee for Scotland
Coventry Rail Action Group	North Cheshire Rail Users' Group
Cymdeithas y Partneriaethau Rheilffordd Gymunedol	North Staffordshire Community Rail Partnership
Disability Agenda Scotland	North Staffs Rail Promotion Group
English Regional Transport Association (ERTA)	North Wales and Mersey Dee Cross Border Rail Taskforce
Friends of the Settle Carlisle Line	Pwyllgor Cyngori ar Drafnidiaeth i Bobl Anabl
Friends of the West Highland Lines	Railfuture
Furness Line Action Group	Riding for the Disabled Rhanbarth Gogledd Cymru
Furness Line Community Rail Partnership	Rugby Rail Users Group
Heritage Railway Association	Save East Coast Rewards
Highways England	Scottish Association for Public Transport (SAPT)
Historic England	Transform Scotland
Hope Mountain Riding for the Disabled	Transport Focus
Lakes Line Community Rail Partnership	TravelWatch NorthWest
Lakes Line Community Rail Partnership	Tyne Valley Community Rail Partnership
Lakes Line Rail User Group	West Bromwich Youth Council
Lancashire Campaign for Better Transport	West Coast Rail 250
Leeds-Morecambe Community Rail Partnership	Wrexham-Bidston Rail Users' Association
Lichfield Rail Alliance	
Lichfield Rail Promotion Group	
London TravelWatch	

### Undebau Rheilffyrdd

Cymdeithas Gysylltiol Peirianwyr Locomotif a Thanwyr (ASLEF)

Cymdeithas Staff Trafnidiaeth Dan Gyflog (TSSA)

Undeb Cenedlaethol y Gweithwyr Rheilffordd, Morwrol a Thrafnidiaeth (RMT)

## Rhestr o ymatebwyr rhanddeiliaid



### Diwydiant Rheilffyrdd

Chiltern Railways  
CrossCountry  
Freightliner Group Ltd  
Rail Delivery Group  
Rail Freight Group

### Gwleidyddion

Cyng Bally Singh  
Craig Tracey AS  
Glyn Davies AS  
Iain Stewart AS  
Ian Lucas AS  
Mark Pawsey AS  
Oliver Mundell ASA  
Plaid Werdd Rugby  
Susan Elan Jones AS  
Y Gwir Anrh Owen Paterson

### Arall

Amgueddfa Gorsaf Glenfinnan  
BFC Networks  
Bwrdd Uchelgais Economaidd Gogledd Cymru  
Cangen Gorllewin Cumbria o'r Ffederasiwn Busnesau Bach  
Chester Growth Partnership  
Furness Economic Development Forum  
Jaguar Land Rover  
Liberty Industries Group  
Maes Awyr Birmingham  
Mid Cheshire Development Board  
North West Business Leadership Team  
Prifysgol Bangor  
Prifysgol Cumbria  
Scottish Council for Development and Industry  
Siambur Masnach Glasgow  
Siambrau Masnach Lerpwl a Sefton  
The NEC Group





